

W/SERD

Wales Institute of Social and Economic
Research, Data and Methods

Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac
Economaidd, Data a Dulliau Cymru

NEWYDDION

wiserd.ac.uk | Argraffiad 17 | Gorffennaf 2018

Addysg
Newid Cymunedau
Economi
Iechyd a llesiant





Croeso gan Gyfarwyddwr WISERD

Mae WISERD yn 10 oed eleni – a chyfle pwysig i edrych yn ôl ar y gwaith ymchwil gwerthfawr rydym wedi ei wneud a'r effaith rydym wedi ei chael ar dirwedd y gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae llawer yn parhau ers dyddiau cynnar WISERD – ein gwaith cydweithredol ar draws ein pum prifysgol graidd ac yn ein cysylltiadau â nifer o bartneriaid, yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang. Mae ein gwaith ymchwil hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar archwilio cymunedau a'r heriau cymdeithasol allweddol maen nhw'n eu hwynebu. Ac rydw i'n falch iawn mai thema'r gynhadledd flynyddol eleni ym Mhrifysgol De Cymru yw 'mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anghyfiawnder' - llinyn arall sy'n rhedeg drwy waith WISERD dros y degawd diwethaf.

Fodd bynnag, y mae hefyd yn bwysig ein bod ni'n newid ac yn addasu gyda'r oes, ac yn cydnabod bod ein tirweddau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd wedi newid ers dechrau WISERD. Mae BREXIT bellach yn dod yn nes ac yn nes, ac mae ymchwilwyr WISERD yn datblygu corff cryf o waith ar ganlyniadau cymdeithasol y refferendwm. Yn y rhifyn hwn, gallwch ddarllen am sut mae ein hymchwilyr wedi bod yn edrych ar effeithiau gadael yr Undeb Ewropeaidd ar fenywod duon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar feithrin cysylltiadau rhyngwladol newydd a chryfach. Yn ddiweddar, cynhaliom

gynhadledd ar y cyd yn Lyon i rannu ein hymchwil Cymdeithas Sifil gyda chydweithwyr yn TRIANGLE - sefydliad ymchwil aml-sefydliadol o Ffrainc. Rwy'n falch o ddweud ein bod ni hefyd wedi cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a fydd yn cefnogi cydweithio parhaus. Ymhellach draw, rydym wedi cael Cyllid Ymchwil Heriau Byd-eang ar gyfer prosiect ymchwil cymdeithas sifil newydd yn India a Bangladesh a fydd yn archwilio arferion effeithiol cyrff cymdeithas sifil yn hyrwyddo hawliau dynol, llywodraethu da a chyfiawnder cymdeithasol.

Mae ymchwil o'r ansawdd uchaf hefyd yn cymryd amser a buddsoddiad hirdymor, ac ar gyfer y chwe blynedd diwethaf mae WISERD Addysg wedi bod yn holi dros fil o blant yng Nghymru am eu bywydau bob blwyddyn. Mae hwn yn adnodd ymchwil unigryw, ac yn y rhifyn hwn rydym yn rhannu rhai o'r canfyddiadau mwyaf diddorol.

Yn olaf, un o gryfderau WISERD yw ein dull cydweithredol. Mae erthygl ar 'Rannu ymchwil ac ymestyn dysgu' yn dangos gwerth meithrin cymuned ymchwil gefnogol lle gall pobl rannu syniadau a dysgu oddi wrth eraill.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r rhifyn hwn o Newyddion WISERD.

Yr Athro Ian Rees Jones
Cyfarwyddwr WISERD

Mae Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) yn sefydliad ymchwil gwyddorau cymdeithasol rhyngddisgyblaethol cenedlaethol.

Rydym wedi ein dynodi gan Lywodraeth Cymru'n ganolfan ymchwil genedlaethol Gan ddefnyddio dulliau arloesol, mae ein hymchwil yn cwmpasu economeg, cymdeithaseg, daearyddiaeth a gwyddoniaeth wleidyddol.

Rydym yn gyd-fenter rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe - yn cydweithio i wella safon a maint ymchwil y gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt.

Mae ein hymchwil yn effeithio ar newid drwy ddylanwadu ar ddatblygiad polisi ac arfer ar draws ystod o sectorau.

Mae WISERD yn gartref i Ganolfan Ymchwil Gymdeithasol Sifil WISERD, buddsoddiad mawr gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), a nifer o grantiau ymchwil mawr eraill. Yn WISERD Prifysgol Aberystwyth mae Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, ac yno mae projectau GLOBAL-RURAL, IMAGINE a ROBUST a ariennir gan yr UE. Mae cartref Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ARDC-W) WISERD ym Mhrifysgol Caerdydd hefyd, sy'n rhan o brosiect a arweinir gan Brifysgol Abertawe.



Cysylltwch â ni



029 2087 9338



www.wiserd.ac.uk



@WISERDNews



/wiserdnews

Cynnwys:



Cydnabyddiaeth am gyfraniad at ymchwil

Ethol Cyd-gyfarwyddwr WISERD i'r Academi Gwyddorau Cymdeithasol
Penodi Chris Taylor, cyd-gyfarwyddwr WISERD, yn Gymrawd LSA
Gwobrau Ymchwil Cymdeithasol Cymru
Crwsibl GW4
Dewis Dr Sioned Pearce ar gyfer Crwsibl Cymru

4
4
4
5
5

Hysbysu llunwyr polisi

Dyfodol Llwyddiannus
Diweithdra ymysg pobl ifanc a datganoli'r gymdeithas sifil
Bydoedd Plant
Y newyddion diweddaraf gan ADRC Cymru

6
6
6
7

Cysylltiadau Rhyngwladol

Cynhadledd WISERD yn Lyon yn nodi cam nesaf o ran cydweithio Ewropeaidd
Archwilio'r cefn gwlad byd-eang
Ymchwil Cymdeithas Sifil newydd WISERD yn India a Bangladesh

8
9
9

Addysg

Ehangu'r rhwydwaith myfyrwyr
Darlith Medal Hugh Owen
Mae elusennau'n chwarae rôl gynyddol mewn ysgolion - ond a yw hynny'n beth da?
Canfyddiadau mwyaf diddorol WISERD Addysg
Ysgolion Cymru angen cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ar frys

10
10
11
12
13

Newid Cymunedau

Myth 'youthquake' a chenhedlaeth y Mileniwm ym Mhrydain
Y diweddaraf gan y Rhwydwaith Ymchwil Cyfranogiad Diwylliannol
Lle i leisiau menywod duon a lleiafrifoedd ethnig ifanc ym mhroses Brexit
Gwell i Ragor
Rhannu ymchwil ac ymestyn dysgu
Codi pontydd, nid muriau

14
15
16
17
18
19

Yr Economi

Rhys Davies sy'n dangos bod presenoldeb undebau llafur yng ngweithleoedd y DU yn uwch na'r hyn a ddangosir yn y ffigurau swyddogol.
Mae Sheffield angen codiad cyflog
Lansio ymchwil i siopau gwag yn Nhrydedd Uwchgynhadledd
Manwerthu a Hamdden Cymru
Sut cafodd McStreic gyntaf y Deyrnas Unedig ei thrydar
Ymatebion Undebau Llafur i newidiadau ym byd gwaith

20
21
22
23
24

Iechyd a llesiant

Menywod ym myd chwaraeon: Myfyrdodau ar interniaeth myfyriwr dros dri mis
Y bwlch iechyd - her byd anghyfartal
Sut mae anabledd yn effeithio ar fodlonrwydd bywyd?
Heneiddio, cysylltiadau rhwng y cenedlaethau, a rhwystrau cyfranogiad cymdeithasol
Archwilio patrymau gofodol rhoddwyr organau sydd newydd gofrestru

25
25
26
27
28

Ethol Cyd-gyfarwyddwr WISERD i'r Academi Gwyddorau Cymdeithasol

Mae'r Athro Michael Woods, cyd-Gyfarwyddwr WISERD Aberystwyth, wedi cael ei ethol yn Gymrawd yn yr Academi Gwyddorau Cymdeithasol, y gymdeithas dysgedig ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol. Roedd Michael yn un o bum deg wyth o gymrodyr newydd a gyhoeddwyd gan yr Academi ym mis Ebrill. Rhoddwyd y Gymrodoriaeth i gydnabod cyfraniad Michael at daearyddiaeth ddynol a gwyddorau cymdeithasol gwledig, yn enwedig ei waith arloesol ar gefn gwlad byd-eang.

Dywedodd Michael Woods, "Mae'n anrhydedd cael fy ethol yn Gymrawd yn yr Academi Gwyddorau Cymdeithasol, ac yn braf cael cydnabyddiaeth bellach o bwysigrwydd gwaith WISERD a'i gyfraniad at gymuned Gwyddorau Cymdeithasol Prydain". Mae Michael yn ymuno ag Ian Rees Jones, Cyfarwyddwr WISERD, Sally Power, Cyd-gyfarwyddwr, a'r Cyn-gyfarwyddwyr Huw Beynon a Gareth Rees, fel Cymrodyr yr Academi.



Mae'r Athro Mike Woods

Penodi Chris Taylor, Cyd-gyfarwyddwr WISERD, yn Gymrawd LSW

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru (LSW) yn hwyluso cyfnewid awdurdodol o wybodaeth a syniadau ac yn hyrwyddo bywyd deallusol cyhoeddus yng Nghymru. Mae cael eich ethol i'r Gymrodoriaeth yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o ragoriaeth academiaidd ac yn dwyn ynghyd 460 o ffigurau amlycaf y byd academiaidd yng Nghymru.

Y llynedd, cafodd yr Athro Chris Taylor Fedal gyntaf Hugh Owen Cymdeithas Ddysgedig Cymru i gydnabod ei gyfraniadau sylweddol at ymchwil addysgol yng Nghymru.

Gwobrau Ymchwil Cymdeithasol Cymru

Enillodd Chris Taylor, Cyd-gyfarwyddwr WISERD, wobwr fawreddog Cymdeithas Ymchwil Cymdeithasol Cymru oddi ar restr fer lle'r oedd pob un yn gysylltiedig â WISERD.

Tynnwyd sylw at effaith ymchwil WISERD yng Ngwobrau Ymchwil Cymdeithasol cyntaf Cymru. Roedd yr enwebeion ar y rhestr fer ar gyfer y Wobr Effaith Ymchwil i gyd yn ymchwilwyr WISERD. Dyfarnwyd y wobwr i Chris Taylor am ei waith yn arwain tîm ar werthuso Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru, y cwricwlwm ysgol ar gyfer plant 3-7 oed.

Yr enwebeion eraill oedd Dr Peter Mackie, sy'n cadeirio Rhwydwaith Ymchwil Tai WISERD, Dr Elin Royles, Dr Huw Lewis a Dr Catrin Wyn Edwards, sy'n rhan o Ganolfan WISERD ar gyfer Gwleidyddiaeth Cymru a Chymdeithas ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Wrth ymateb i'r wobwr, dywedodd yr Athro Taylor: "Hoffwn gydnabod holl yr hyrwyddwyr ymchwil y tu allan i'r prifysgolion sy'n gwneud gwahaniaeth o ddifrif i sicrhau effaith ein gwaith ymchwil. Mae hyn yn cynnwys ymchwilwyr cymdeithasol y Llywodraeth sy'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr polisi i sicrhau bod tystiolaeth yn llywio penderfyniadau polisi, ac ymarferwyr ysgolion sy'n ymgysylltu â'r dystiolaeth ddiweddaraf er mwyn datblygu addysgu a dysgu effeithiol. Hoffwn hefyd ddiolch i sefydliadau, gan gynnwys y cyfryngau a melinau trafod, sy'n cynorthwyo'r cyhoedd i ymgysylltu ag ymchwil a'i drafod"

Crwsibl GW4

Mae Dr Muddiman wedi ennill lle yng Nghrwsibl GW4 2018 – rhaglen ddwys sy'n canolbwyntio ar lwybrau at effaith, rhwydweithio rhyngddisgyblaethol a chydweithio rhwng ymchwilwyr ar gamau cynnar eu gyrfa ar draws y sefydliadau GW4 (Prifysgolion Caerfaddon, Bryste, Caerdydd a Chaerwysg).

Mae'r crwsibl yn cysylltu 30 o ymchwilwyr o wahanol gefndiroedd yn ystod pedwar 'labordy' preswyl, lle mae'r cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn cyfres o weithdai a seminarau gydag amrywiaeth o bartneriaid allanol a siaradwyr gwadd arbenigol o'r Llywodraeth, y cyfryngau, a'r trydydd sector.

Y thema eleni – Cydnherthedd, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd – yw un o bum maes allweddol gweledigaeth GW4, a nod benodol y rhaglen yw roi'r offer i ymchwilwyr ar gamau cynnar eu gyrfa gyd-greu a darparu atebion arloesol, traws-ddisgyblaethol i heriau byd-eang. Er enghraifft, yn labordy tri, ar ôl nifer o sesiynau 'gwib-ganlyn', lle'r oedd ymchwilwyr o feysydd gwahanol yn nodi tir cyffredin a syniadau ymchwil posibl, daeth wal syniadau prosiect posibl i'r amlwg a oedd wedyn yn troi'n themâu trawsbynciol i'w datblygu'n gynigion.



Crwsibl GW4 (Dr Muddiman, canol-blaen)

Ochr yn ochr â hyfforddiant ymarferol a mentora ar ddyfeisio syniadau ymchwil ac ysgrifennu cynigion, ceir cyfleoedd hefyd i ddatblygu sgiliau lledaenu gwybodaeth ac ymgysylltu, gan gynnwys rhoi cyfweiliad ar y cyfryngau, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol a chysylltu â newyddiadurwyr.

Gan bwyso ar ei hymchwil cyfredol yn archwilio rôl y teulu yn hanesion pobl am ymgysylltu dinesig ac amgylcheddol, mae Dr Muddiman yn awr yn bwriadu gweithio gyda chydweithwyr ym meysydd seicoleg, daearyddiaeth, y gyfraith, gwyddoniaeth amgylcheddol a busnes ar brosiect cynaliadwyedd cymunedol.



Dr Sioned Pearce

Dewis Dr Sioned Pearce ar gyfer Crwsibl Cymru

Bydd Dr Pearce ymuno â rhaglen wobredig Crwsibl Cymru, yng Nghaerdydd, Bangor ac Abertawe yn ystod mis Mai, Mehefin a Gorffennaf eleni. Mae'r rhaglen yn darparu datblygiad personol, proffesiynol a sgiliau arwain ar gyfer arweinwyr ymchwil y dyfodol yng Nghymru. Y nod yw dod ag ymchwilwyr ar gamau cynnar a chanol eu gyrfa o wahanol gefndiroedd amlddisgyblaethol at ei gilydd i gydweithio, meddwl yn greadigol a gwneud gwahaniaeth i'w gwaith, eu gyrfaoedd a'r byd cyhoeddus.

Dyfodol llwyddiannus i bawb

Mae WISERD wedi cael cyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ar gyfer prosiect ymchwil sy'n ceisio ychwanegu gwerth at werthusiad presennol Llywodraeth Cymru o gynnydd Ysgolion Arloesi wrth ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer plant 3-15 oed yng Nghymru.

Mae Dr Nigel Newton yn gweithio ar yr ymchwil hwn, dan arweiniad yr Athro Chris Taylor a'r Athro Sally Power. Mae'r cwricwlwm newydd yn ddargyfeiriad cyffrous a radical i fydd addysg yng Nghymru, ac mae'r astudiaeth hon yn dilyn ei ddatblygiad.

Diweithdra ymysg pobl ifanc a datganoli'r gymdeithas sifil

Dyfarnwyd Grant Ymchwilydd Newydd i Dr Sioned Pearce, a fydd yn cyllido'r prosiect ymchwil yn WISERD 'Diweithdra ymysg pobl ifanc a'r datganoli'r gymdeithas sifil: dadansoddiad cymharol o gyfundrefnau lles is-wladwriaethau.

Bydd y grant gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn cyllido prosiect dwy flynedd yn archwilio'r gwahaniaethau yn ymatebion cymdeithas sifil i ddiweithdra ymhlith pobl ifanc ym mhedair gwlad ddatganoledig y Deyrnas Unedig, o fis Rhagfyr 2018. Nod y prosiect yw nodi, categorioedd a chymharu graddfeydd a mathau o gyfranogiad cymdeithas sifil mewn polisi diweithdra ymhlith pobl ifanc a darpariaeth ar raddfeydd llywodraethu is-wladwriaethau.

Drwy graffu'n feirniadol ar y syniad o 'un wladwriaeth les yn y Deyrnas Unedig', bydd hyn hefyd yn datblygu ein dealltwriaeth o effaith datganoli ac ailraddio tiriogaethol ar ffurfio gwladwriaethau lles ar draws gorllewin Ewrop. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn darparu argymhellion yn seiliedig ar oblygiadau gwahaniaethau datganoledig ym mhob cenedl ddatganoledig ar gyfer polisi ac arferion diweithdra ymysg pobl ifanc.

Bydoedd Plant

Mae WISERD wedi ariannu Bydoedd Plant, arolwg rhyngwladol o les plant a gynhelir am y tro cyntaf yng Nghymru.

Hon yw'r astudiaeth fwyaf o'i bath, wedi ei chyllido gan sefydliad Jacobs, a chaiff ei chefnogi gan nifer o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru.

Y diben yw gwella llesiant plant drwy greu ymwybyddiaeth ymysg plant, eu rhieni a'u cymunedau, arweinwyr barn, gwneuthurwyr penderfyniadau, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Nod yr astudiaeth yw casglu data cadarn a chynrychioliadol ar fywydau plant a gweithgareddau bob dydd, eu defnydd o amser ac yn enwedig eu canfyddiadau a'u gwerthusiadau eu hunain o'u llesiant.




Y newyddion diweddaraf gan ADRC Cymru



ADRC-W yn croesawu wyneb newydd drwy Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

Mae Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADRC-W) wedi croesawu Lauren Burns i'w thîm o ymchwilwyr.



Lauren Burns

Gan weithio yn yr Adeilad Gwyddorau Data yn Abertawe, Mae Lauren wedi dechrau ar waith ymchwil tair blynedd o ymchwil a ariennir gan Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC. Mae'n cydweithio â Dr Ana Da Silva a'r Athro Ann John er mwyn ymchwilio i effaith ffactorau cleifion anghlinigol o ran gwneud penderfyniadau clinigol iechyd meddwl.

Lauren yw'r trydydd aelod o'r tîm ymchwil yng Nghymru sydd wedi cael lle yn cynnal ymchwil ochr yn ochr ag ADRC-W o ganlyniad i alwadau cyllido.

Cyllido astudiaeth digartrefedd

Mae Llywodraeth Cymru a Chanolfan Gydweithredol y Deyrnas Unedig ar gyfer Tystiolaeth Tai (CaCHE) wedi cytuno i gyllido astudiaeth ddichonoldeb dan arweiniad ADRC-W a Dr Ian Thomas o WISERD, a allai newid y sylfaen dystiolaeth ar ddigartrefedd yng Nghymru mewn ffordd radical.

Bydd Dr Ian Thomas yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn rhan-amser am flwyddyn, gan gyflwyno arbenigedd newydd a gallu, gyda'r prif ffocws ar ymchwilio i ddichonoldeb cyflwyno modd o gasglu, adrodd a dadansoddi data lefel unigol, mewn perthynas â digartrefedd yng Nghymru.

Dadansoddiad o ddata ar yrfaedd ac addysg Cymru ar y gweill yn ADRC-W

Mae Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADRC-W) wedi penodi Dr Suhaer Yunus i gynnal dadansoddiad o ddata gweinyddol Gyrfya Cymru.

Bydd y rôl, sy'n cael ei chyllido ar y cyd gan Gyrfya Cymru, yn fodd i Dr Yunus gynnal ymchwil ar effeithiolrwydd ymyriadau cyfarwyddyd gyrfaoedd yng Nghymru a sut maen nhw'n cefnogi cyfranogiad mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Myfyriwr PhD blwyddyn gyntaf yn cael gwobr fawreddog ym maes tai

Mae Hannah Browne Gott, myfyriwr PhD yn ADRC-W, wedi cael gwobr fawreddog Valerie Karn y Gymdeithas Astudiaethau Tai ar gyfer ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfya.

Cafodd Hannah y wobr am ei phapur 'Hawliau tai, atal digartrefedd a pharadocs biwrocratiaeth?' Dyfernir y wobr am y papur gorau gan rywun ar ddechrau eu gyrfya yng Nghynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Astudiaethau Tai.

Wrth siarad ar ôl derbyn y wobr, dywedodd Hannah, sy'n cynnal ei gwaith ymchwil PhD ar hawliau tai a digartrefedd yn yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio ym Mhrifysgol Caerdydd:

"Rydwy i'n falch iawn fy mod i wedi ennill y wobr hon. Hwn oedd y tro cyntaf i mi fod yn bresennol mewn cynhadledd academiaidd, heb sôn am gyflwyno papur mewn cynhadledd, felly mae'n anrhydedd enfawr cael y wobr. Rydw i'n gobeithio y bydd ennill yr anrhydedd hwn yn fodd i mi gyfrannu at wella ein gwasanaethau digartrefedd yma yn y Deyrnas Unedig."



Hannah Browne Gott

Cynhadledd WISERD yn Lyon yn nodi'r cam nesaf o ran cydweithio Ewropeaidd

Ym mis Mai 2018, nododd cynhadledd 'Trust-Transparency Paradoxes' ddechrau cytundeb cydweithio ffurfiol rhwng WISERD a TRIANGLE yn Lyon, Ffrainc.

Bydd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth, a lofnodwyd ddiwrnod cyn y gynhadledd, yn cefnogi datblygiad nifer o brosiectau cyffrous ar y cyd, cyfnewid academiaidd yn y dyfodol a chyd-gyhoeddiadau. Mae TRIANGLE a WISERD ill dwy yn ganolfannau rhagoriaeth ymchwil traws-sefydliadol, amlldisgyblaethol. Tra bo WISERD yn dod ag ymchwilwyr at ei gilydd o Brifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe, mae TRIANGLE yn rhychwantu Prifysgolion Lyon, Lyon 2, Ecole Normale Supérieure, Sciences-Po, Jean Monnet yn St Etienne a'r Centre national de la recherche scientifique (CNRS). Mae'r ddau sefydliad yn cynnwys ymchwilwyr ym meysydd seicoleg, polisi cymdeithasol, gwleidyddiaeth, economeg ac addysg. Bydd cydweithio yn y dyfodol yn canolbwyntio ar dri maes diddordeb - addysg; polisi a llywodraethu cyhoeddus, cymdeithasau a chymdeithas sifil.

Mae gan y cydweithio rhwng TRIANGLE a WISERD botensial i ddarparu dealltwriaeth newydd a phwysig am faterion gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd parhaus ac sy'n ymddangos yn Ffrainc, Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'n adeiladu ar berthynas hirsefydlog rhwng ymchwilwyr yng Nghaerdydd a Lyon. Mae Cyfarwyddwr Addysg WISERD, yr Athro Sally Power, wedi ei gwahodd yn rheolaidd i'r Ecole Normale Supérieure (ENS), un o'r sefydliadau addysg uwch mwyaf nodedig yn Ffrainc, dros y degawd diwethaf.

Mae'r Athro Alistair Cole yn Athro yn Sciences Po Lyon ers 2015, ar secondiad o Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd. Mae'n eistedd fel aelod etholedig ar Bwyllgor Gwyddonol TRIANGLE ac mae ganddo gyswllt hirsefydlog gyda WISERD.

Dywed yr Athro Ian Rees Jones, Cyfarwyddwr WISERD: "Mae ein hymchwil yn ymwneud â heriau polisi cyfoes, a gydag Ewrop, a'r Deyrnas Unedig yn benodol, yn wynebu cyfnod o ansicrwydd sylweddol, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda phartneriaid Ewropeaidd i fynd i'r afael â chanlyniad newid cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. Mae'r cytundeb hwn rhwng TRIANGLE a WISERD yn cynnig cyfle unigryw a chyffrous i adeiladu ar ein perthynas waith, sydd eisoes yn agos, a dwysáu ac ehangu

ein gweithgareddau ar y cyd mewn meysydd allweddol gan gynnwys addysg; arloesi polisi; ymchwil cymharol ar lywodraethu amlhaenog, ymddiriedaeth a chymdeithas sifil a rhanbarthau dinesig."

Dywedodd yr Athro Gautier: "Rwyf i'n edrych ymlaen at gydweithio ffrwythlon yn y dyfodol, yn enwedig yng nghydestun blaenoriaeth drawsbynciol TRIANGLE ym maes addysg a dysgu, yn ogystal â'n diddordebau cydgyfeiriol mewn dinasoedd, rhanbarthau, llywodraethu a pholisi cyhoeddus."

Dywed yr Athro Alistair Cole, a drefnodd y gynhadledd: "Mae'r gynhadledd yn gyfle pwysig i drafod canfyddiadau interim prosiectau ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD ac yn wireddiad cadarn o strategaeth rhyngwladoli cyffredin fydd o fudd i TRIANGLE a WISERD."



Cyfarwyddwr WISERD Ian Rees Jones (ar y dde) a Chyfarwyddwr TRIANGLE, yr Athro Claude Gautier, yn llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Archwilio'r cefn gwlad byd-eang

Mae ymchwilwyr WISERD yn y tîm CEFN GWLAD BYD-EANG ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi lansio adnodd ar-lein newydd a fydd yn galluogi myfyrwyr, athrawon, llunwyr polisi, ymgrychwyr a'r cyhoedd sydd â diddordeb i ystyried cymhlethdodau ac effeithiau globaleiddio mewn cymunedau gwledig.

Mae'r wefan, www.global-rural.org, yn ganlyniad prosiect CEFN GWLAD BYD-EANG y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd dros gyfnod o 5 mlynedd dan arweiniad yr Athro Michael Woods, ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod canfyddiadau'r prosiect ar gael yn rhwydd mewn ffordd hygyrch a difyr.

Canolbwynt y wefan yw Mapiau Stori aml-gyfrwng sy'n cyfuno testun, delweddau, mapiau GIS a delweddu, ffilm a sain i adrodd naratifau am globaleiddio mewn cyd-destunau gwledig ledled y byd. Mae llawer o'r Mapiau Stori yn cyflwyno astudiaethau achos o ymchwil maes CEFN GWLAD BYD-EANG mewn gwledydd fel Awstralia, Brasil, Canada, China, Iwerddon, yr Eidal, Liberia, Malawi, Mauritius, Seland Newydd, Nigeria a Tanzania, yn ogystal â Chymru, tra bod eraill yn rhoi trosolwg o bynciau fel mudo, cipio tir a'r diwydiant llaeth byd-eang.

Ymhlith y Mapiau Stori cyntaf a fydd yn ymddangos ar y wefan mae hanesion am wlad Cymru a'r economi fyd-eang, gweithgareddau allforio busnesau yn y Drenewydd, a mewnfudo ac amrywiaeth mewn tref fechan yn Iwerddon. Bydd rhagor o ddeunydd yn cael ei ychwanegu dros y flwyddyn a ddaw.

Yn ogystal â'r Mapiau Stori, mae'r wefan yn darparu mynediad at bapurau a chyflwyniadau gan y prosiect CEFN GWLAD BYD-EANG ac adnoddau arbennig ar gyfer ysgolion ac arweinwyr cymunedol. Nod y wefan yw hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o globaleiddio, yn enwedig mewn cyd-destun gwledig, ond hefyd ceisio helpu cymunedau gwledig i ymateb i heriau a chyfleoedd a ddaw yn sgil globaleiddio.

Ymchwil Cymdeithas Sifil newydd WISERD yn India a Bangladesh



Ffotograff: flickr/IDWF [cc-by-nc-nd 2.0]

Cyhoeddwyd prosiect partneriaeth ryngwladol newydd gan WISERD i archwilio cymdeithas sifil yn India a Bangladesh.

Arweinir prosiect 'Archwilio arferion effeithiol sefydliadau cymdeithas sifil wrth hybu hawliau dynol, llywodraethu da a chyfiawnder cymdeithasol yn India a Bangladesh' gan yr Athro Paul Chaney (Prifysgol Caerdydd) a Sahoo Sarbeswar (Sefydliad Technoleg India, Delhi).

Bydd y prosiect hwn yn cyfuno dulliau ymchwil cymysg yn seiliedig ar gymdeithaseg, gwyddoniaeth wleidyddol ac anthropoleg, a chaiff ei gyllido gan Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang y Cyngor Ymchwil Meddygol.

Dywedodd yr Athro Paul Chaney, 'gyda rhyddid crefyddol a chydaddoldeb rhwng y rhyweddau yn rhan allweddol o wireddu nodau datblygu cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, mae ein prosiect yn canolbwyntio ar yr heriau allweddol sy'n wynebu cymdeithas sifil â phatrymau dwfn parhaus a phrosesau gormesu rhyweddau a gwrthdaro crefyddol yn y ddwy wlad. Bydd sylw'n canolbwyntio ar safbwyntiau sefydliadau cymdeithas sifil ar y materion allweddol, y meysydd cynnydd a'r heriau parhaus o ran eiriol dros hawliau dynol a darparu gwasanaethau ar gyfer menywod, merched a gwahanol gymunedau crefyddol'.

Bydd y prosiect yn llywio dealltwriaeth o rôl cymdeithas sifil o ran rhwymedigaethau'r ddwy wlad i hawliau dynol rhyngwladol, fel y nodir yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a chytundebau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau i ehangu ei rhwydwaith peilot ar gyfer disgyblion ysgol sy'n cyflawni'n uchel.

Cyfrannodd Rhys Davies a Dr Suhaer Yunus, ymchwilwyr yn WISERD ac ADRC-Cymru, at y gwerthusiad diweddar o'r rhwydwaith Seren a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae SEREN yn helpu disgyblion chweched dosbarth disgleiriaf Cymru i gael mynediad at y prifysgolion gorau ar draws y byd.



Credit: Wellington College CYBYNC

Roedd canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad mor sylweddol fel eu bod wedi arwain at Kirsty Williams

AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn cyhoeddi buddsoddiad o £3 miliwn dros gyfnod o ddwy flynedd i ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru ymhellach ar gyfer dysgwyr iau mwy abl a thalentog. Yn ychwanegol at y buddsoddiad, fe wnaeth Kirsty Williams AC nodi tair egwyddor allweddol i yrru gwelliannau:

- *Gwella prosesau nodi a chymorth ar lefel yr ysgol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol*
- *Cyfleoedd a fydd yn ysbrydoli'r lefelau uchaf o gyrhaeddiad*
- *Datblygu tystiolaeth i gefnogi rhagor o fuddsoddi a gwaith*

Archwiliodd Rhys a Suhaer sut gellid defnyddio ffynonellau data gweinyddol i asesu effeithiolrwydd rhwydwaith

Seren a pha faterion ymarferol a methodolegol fyddai angen eu hystyried cyn cynnal gwerthusiad llawn o effaith rhwydwaith Seren yn seiliedig ar data gweinyddol cysylltiedig.

Dyma ddolen i'r adroddiad llawn: bit.ly/2JkvEnr

Arweiniwyd y gwerthusiad gan gydweithwyr yn Old Bell 3 Ltd www.ob3research.co.uk



Darlith Medal Hugh Owen 2017

Y llynedd, cafodd yr Athro Chris Taylor, Cyd-gyfarwyddwr WISERD, fedal gyntaf Hugh Owen Cymdeithas Ddysgedig Cymru i gydnabod ei gyfraniad eithriadol at ymchwil addysgol.

I gydnabod derbyn ei fedal, traddodd yr Athro Chris Taylor ddarlith dan y teitl 'Gweithredu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru: gwersi i'w dysgu?' i gynulleidfa fawr o lunwyr polisi, athrawon ac academyddion.

Dadleuodd fod Cymru wedi gweld nifer o newidiadau radical i'w system addysg ers datganoli, ond bod y

mwyaf arwyddocaol eto i ddod. Yn 2015 aeth Llywodraeth Cymru ati i gyflwyno cwricwlwm newydd ar gyfer plant rhwng 3 ac 16 oed, y diwygiad mwyaf i'r cwricwlwm yng Nghymru erioed.

Mae'r uchelgais i gael cwricwlwm newydd ar waith erbyn mis Medi 2021 eisoes wedi cael ei oedi. Cyhoeddodd Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y byddai un flwyddyn o oedi cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd, ac y byddai'r cwricwlwm yn cael ei gyflwyno fesul cam. Dadl yr Athro Taylor oedd bod y penderfyniad hwn yn cydnabod maint y dasg, ond ei fod hefyd yn cynnig cyfle da i fyfyrwyr ar sut i'w roi ar waith.



Mae Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) eisoes wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o werthuso a herio nifer o'r diwygiadau addysg a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf. Yn y ddarlith hon, bu'n myfyrwyr ar werthusiad WISERD o'r diwygiadau hyn ac yn ystyried pa wersi eraill y gellid eu dysgu i'n helpu i roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus.

Mae elusennau'n chwarae rôl gynyddol mewn ysgolion - ond a yw hynny'n beth da?

Er bod pryderon cynyddol am y modd y mae busnes yn treiddio i fyd addysg, cymharol ychydig o sylw sydd wedi ei roi i sut mae ysgolion yn chwarae rhan gynyddol ym "musnes" codi arian elusennau.



**Yr Athro
Sally
Power**

Cyn ymuno ag Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2004 fel Cymrawd Athrawol, roedd Sally Power yn gweithio yn yr Athrofa Addysg ym Mhrifysgol Llundain, lle bu'n Bennaeth yr Ysgol Astudiaethau Sylfeini a Pholisi Addysgol ac yn Gyfarwyddwr yr Uned Ymchwil Polisi Addysg. Ar hyn o bryd y mae hi'n arwain llinyn 'Cenedlaethau' Canolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol/WISERD ac yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau sy'n archwilio'r rhaglen diwygio addysg yng Nghymru.

wiserd.ac.uk/about-us/people/sally-power

Yn WISERD Addysg, buom yn ymchwilio i hyn, gan roi sylw penodol i'r berthynas gynyddol agos rhwng pobl ifanc, ysgolion ac elusennau.

Mae ein gwaith ymchwil, yn seiliedig ar arolygon o dros 1,000 o fyfyrwyr ysgol yng Nghymru, yn dangos bod gan bobl ifanc lefel uchel o ymgysylltiad ag elusennau. Dangosodd yr ymchwil bod mwyafrif enfawr o fyfyrwyr 14-18 oed wedi rhoi arian i elusennau, yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian.

Gofynnwyd i fyfyrwyr enwi'r elusennau y bu eu hysgol yn codi arian tuag atyn nhw yn ddiweddar. Nodwyd tri deg saith o elusennau; ac ymysg y deg uchaf roedd Plant mewn Angen, Cancer Research UK, Sports Relief, ac Ambiwlans Awyr Cymru. Byddai'n deg dweud bod ysgolion yn chwarae rhan fawr o ran codi ymwybyddiaeth o elusennau ymysg plant a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau elusennol.

Gellir dadlau bod y gweithgareddau elusennol hyn yn darparu ymdeimlad o ddinasyddiaeth, o ran ymgysylltu fel unigolion a chyfranogi mewn gweithgareddau ar y cyd yn yr ysgol. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch gweithgareddau hyrwyddo elusennau. Yn ogystal â phryderon bod rhai elusennau mwy o faint yn debyg iawn i fusnesau yn eu hanfod, mae bron pob un o'r elusennau a gefnogwyd yn ein hysgolion yn meddu ar gysylltiadau amlwg â busnesau. Mae Plant mewn Angen yn cael ei noddi'n sylweddol gan Fanc Lloyds a'r

cwmni cadwyn o archfarchnadoedd Asda. Mae gan Sports Relief, y drydedd elusen yn y rhestr o'r rhai a enwyd amlaf, bartneriaid busnes hefyd, gan gynnwys siopau Sainsbury's, BT, British Airways ac Amazon. Mae logos a dolenni i'r holl gwmnïau hyn i'w gweld ar bron y cyfan o'r adnoddau hyrwyddo ar gyfer ysgolion.

Dadleuwyd hefyd bod plant yn cael eu haddysgu mai elusennau yw'r ateb ar gyfer amrywiaeth o 'drafferthion' cymdeithasol, ac mae hyn yn anwybyddu'r dulliau eraill. Mae llawer o'r achosion mae'r elusennau hyn yn mynd i'r afael â nhw, fel cam-drin plant, tloidi, digartrefedd a chreulondeb at anifeiliaid, yn achosion y gellid mynd i'r afael â nhw'n fwy priodol drwy atebion gwleidyddol. Gellid dadlau bod elusennau'n rhyw fath o blaster ar ddolur, yn ffordd o guddio neu 'ddatrys' anghenion cymdeithasol cronig.

Er bod llawer o fanteision yn perthyn i ymgysylltiad elusennol mewn ysgolion, yn ddiau, mae rhai materion yn peri pryder o hyd. A yw prif-ffrydio elusennau'n dystiolaeth o fasnacheiddio cynyddol o fewn ysgolion?

O fewn hinsawdd wleidyddol, lle mae cymdeithas sifil yn cael ei nodi fwyfwy fel yr ateb i amrywiaeth eang o broblemau cymdeithasol ac economaidd parhaus, mae'n agored i'r cwestiwn a ddylai ysgolion gymeradwyo rhinweddau elusennau pan gallai ymyrraeth gan y wladwriaeth fod yn fwy priodol.

Canfyddiadau mwyaf diddorol WISERD Addysg

Dros y chwe blynedd diwethaf, mae WISERD Addysg wedi bod yn cynnal arolygon gyda thros fil o blant (rhwng 8 a 18 oed) am eu bywydau ledled Cymru bob blwyddyn. Dyma rai o'n casgliadau mwyaf diddorol am blant yng Nghymru:

1. Mae merched yn well na bechgyn yn yr ysgol, ond yn llai hapus

Er bod merched yn tueddu i wneud yn well yn academiaidd, maen nhw hefyd yn fwy pryderus. Yn 2014, dywedodd 25% o ferched, o gymharu â 16% o fechgyn, eu bod yn poeni yn yr ysgol.

2. Maen nhw'n fwy tebygol o glywed rhywiaeth a hiliaeth yn yr ysgol nag yn eu hardaloedd lleol

Yn 2017, gwelsom fod plant yn llawer mwy tebygol o glywed iaith hiliol (55%) ac iaith rhywiaethol (61%) yn yr ysgol nag yn eu hardal leol (43%).

3. Mae tiwtora preifat yn llai cyffredin yng Nghymru nag yn Lloegr

Fodd bynnag, mae'n dal yn uchel ar gyfer pynciau fel Mathemateg, lle dywedodd un o bob deg o fyfyrwr fod ganddyn nhw diwtor preifat.



Dr Rhian Barrance

Mae Dr Rhian Barrance yn Gydymaith Ymchwil ar raglen ymchwil WISERD Addysg. Cyn ymuno â WISERD, cwblhaodd Rhian ei PhD mewn Addysg ym Mhrifysgol Queen's, Belfast. Mae Rhian yn athrawes Saesneg gymwys. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar Astudiaeth Aml-garfan WISERD Addysg, astudiaeth hydredol ar raddfa fawr o garfanau sydd wedi bod yn cynnal arolygon gyda disgyblion ledled Cymru ar agweddau ar eu bywydau ac addysg dros y chwe blynedd diwethaf.

wiserd.ac.uk/about-us/people/rhian-barrance

4. Mae'n nhw'n teimlo mai'r golygfeydd a'r dirwedd yw'r pethau gorau am fyw yng Nghymru

Dilynwyd hyn yn agos gan bobl a'r gymuned. Y pethau gwaethaf oedd y tywydd a'r canfyddiad bod diffyg cyfleoedd.

5. Mae cyfryngau cymdeithasol yn amharu ar eu cwsgr

Mae ychydig o dan chwarter o rai rhwng 12 a 15 oed yn deffro i gael golwg ar y cyfryngau cymdeithasol y rhan fwyaf o nosweithiau. Nid yw'n syndod bod y rhai a oedd yn gwneud hyn yn llawer mwy tebygol o nodi eu bod wedi blino y diwrnod nesaf.

6. Mae dros chwarter yn meddwl y byddan nhw'n gorfod gadael Cymru i gael swydd

Roedd tipyn o amwysedd ynghylch a oedd arnyn nhw eisiau aros yng Nghymru, gyda tua hanner y myfyrwyr ddim yn ffafrio'r naill ffordd na'r llall.

7. Mae cefnogaeth i roi'r bleidlais i bobl 16 oed wedi cynyddu yn dilyn Brexit

Tan 2017, roedd disgyblion dros 16 oed yn tueddu i fod yn erbyn pleidleisio yn 16 oed. Fodd bynnag, ar ôl y refferendwm roedden nhw'n dechrau cefnogi oedran pleidleisio is, gan ddweud wrthym fod canlyniad y refferendwm yn 'annheg' gan nad oedden nhw wedi cael dweud eu dweud.

8. O roi miliwn o bunnoedd yr un iddyn nhw, byddai chwarter ohonyn nhw'n ei roi i eraill

Dywedodd 25% arall y bydden nhw'n rhoi o leiaf rhywfaint ohono i eraill, a dywedodd 14% wrthym y bydden nhw'n ei gynilo i gyd. Dim ond 36% fyddai'n gwario'r rhan fwyaf ohono.

9. Mae newid yn yr hinsawdd a thlodi yn gymaint o fygythiad â therfysgaeth ym marn nifer

Roedd plant iau yn tueddu i nodi terfysgaeth fel eu prif ofn, tra'r oedd plant hŷn yn fwy tebygol o ddewis newid yn yr hinsawdd a thlodi fel pryderon mawr.

10. Maen nhw'n gweld gwerth yn yr iaith Gymraeg, ond yn llai awyddus i'w dysgu eu hunain

Yn 2013, dywedodd bron i dri chwarter o blant wrthym ei bod yn bwysig i'r Gymraeg barhau'n iaith fyw, er bod llai o ddisgyblion (65%) wedi nodi ei bod yn bwysig iddyn nhw ei dysgu.

Ysgolion Cymru angen cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ar frys

Ar ôl 20 mlynedd o wleidyddiaeth ddatganoledig, byddai rhywun yn tybio y byddai Llywodraeth a Senedd Cymru wedi cadarnhau eu lle yn y wlad, ac y byddai pobl Cymru yn ymwybodol iawn o'r hyn maen nhw'n ei wneud. Ond eto, mae arolygon ac ymchwili wedi dangos dro ar ôl tro bod ymwybyddiaeth o'r awdurdod sydd gan y cyrff hyn yn frawychus o isel o hyd.

Barn y myfyrwyr


Dros y pum mlynedd diwethaf, mae WISERD Addysg wedi bod yn ymchwilio i'r rôl y gall addysg ei chwarae yng ngwleidyddiaeth Cymru. Rydym wedi mynd at lygad y ffynnon, gan holi disgyblion Cymru am eu diddordeb mewn gwleidyddiaeth, yn ogystal â'r rôl y mae'r ysgol yn ei chwarae yn eu dealltwriaeth o faterion cyfoes.

Yn 2016, gofynnem i dros 700 o fyfyrwyr o bob rhan o Gymru faint o ddiddordeb oedd ganddyn nhw mewn gwahanol raddfeydd o wleidyddiaeth. Fel y gallwch weld yn Ffigur 1, nododd nifer nad oes ganddyn nhw lawer o ddiddordeb, er, yn bwysig, roedd gan fyfyrwyr lawer llai o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth leol neu wleidyddiaeth Cymru nag oedd ganddyn nhw yng ngwleidyddiaeth y Deyrnas Unedig a'r byd.


Dylid nodi nad yw'r myfyrwyr yn anwleidyddol. Mae Brexit, hiliaeth a'u cymunedau yn faterion o bwys iddyn nhw.

Nid yw ymddieithrio â gwleidyddiaeth 'ffurfiol' yw gyfystyr â difaterwch, ond mae diffyg diddordeb yng ngwleidyddiaeth Cymru yn peri pryder.

Ffig. 1: % y diddordeb mewn gwahanol raddfeydd o wleidyddiaeth yn ôl oedran



Ffig. 2: % o arweinydd gwleidyddol wedi u cydweddu I swydd



Yna, gofynnem i'r myfyrwyr gyfateb yr arweinydd gwleidyddol â'i swydd (Ffigur 2). Nid yw'n syndod bod y grŵp hyn wedi dangos lefel uwch o ymwybyddiaeth, ond roedd y ddau grŵp yn fwy ymwybodol o arweinwyr y Deyrnas Unedig na rhai Cymru. Roedd rhywfaint o ddrysych ynghylch arweinwyr Cymru hefyd, gyda swm sylweddol yn drysu rhwng rolau arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood) a Phrif Weinidog Cymru (Carwyn Jones). Mae'r gwahaniaeth hwn yn dangos y pwysigrwydd a roddwyd i wahanol raddfeydd o wleidyddiaeth: Mae gwleidyddiaeth Prydain yn amlwg yn fwy gweladwy na gwleidyddiaeth Cymru yng Nghymru.

Drwy gynnal y profion hyn cawsom lefel o ddealltwriaeth o farn myfyrwyr am rôl yr ysgol o ran dysgu ymwybyddiaeth a gwybodaeth wleidyddol. Roedd yn ymddangos bod y mwyafrif yn teimlo nad oedd yr ysgol yn cynyddu eu diddordeb yng ngwleidyddiaeth Cymru.

Gofynnem i'r myfyrwyr ddewis y prif ffynonellau maen nhw'n troi atyn nhw am wybodaeth am faterion cyfoes, ac nid oedd yn syndod bod y mwyafrif yn

dibynnu ar Facebook, teulu a ffrindiau, a phapurau newydd a gwefannau. Y peth diddorol am hyn oedd bod myfyrwyr o'r farn mai gwersi ysgol oedd y ffynhonnell lleiaf pwysig o wybodaeth. O ystyried y lefelau isel o ymwybyddiaeth yng Nghymru, dylai llythrennedd wleidyddol sylfaenol fod yn golofn graidd yn addysg dinasyddiaeth Cymru.



Dr Daniel Evans


Roedd Dr Daniel Evans yn gynorthwydd ymchwil gyda WISERD Addysg. Cyfrannodd at waith WISERD ar y Cyfnod Sylfaen, gwerthuso'r Grant Amddifadedd Disgyblion ac Astudiaeth Aml-garfan WISERD Addysg. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys datganioli yng Nghymru ac economi wleidyddol Cymru.

wiserd.ac.uk/about-us/people/daniel-evans

Myth 'youthquake' a chenhedlaeth y Mileniwm ym Mhrydain

Yn ystod etholiad cyffredinol 2017 y Deyrnas Unedig, ymddangosai bod ymgysylltu â phobl ifanc ar uchafbwynt – daeth nifer o academyddion, gwleidyddion a newyddiadurwyr i'r casgliad cyflym ein bod yn tystio 'youthquake' a oedd wedi gwrthod rhoi mwyafrif i'r Ceidwadwyr yn Nhŷ'r Cyffredin, gan roi hwb i Lafur dan arweiniad Jeremy Corbyn at ganlyniad ysblennydd.

Y bleidlais wedi ei dilyn, yn ôl cenhedlaeth: 1997-2017



Dr Stuart Fox

Mae Dr Stuart Fox yn Gydymaith Ymchwil Meintiol ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn rhan o'r tîm sy'n gweithio ar brosiect pobl ifanc a Brexit WISERD, sy'n cynnwys cyd-academyddion ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth.

I gael rhagor o wybodaeth am waith Dr Stuart Fox, ewch i www.wiserd.ac.uk/stuartfox

Fodd bynnag, mae'n anodd dilyn honiadau am y nifer a bleidleisiodd o is-grwpiau penodol o etholwyr, oherwydd nid yw ystadegau swyddogol yn darparu gwybodaeth am oedran na chefnidir y rhai a bleidleisiodd – ond ni wnaeth hyn atal rhai rhag dod i'r casgliad bod 'youthquake' wedi digwydd, ar sail ffotograffau o orsafoedd pleidleisio neu mewn raliâu, cyfweiliadau â myfyrwyr ac arolygon nad oes modd eu cadarnhau.

Daw'r amcangyfrif gorau ynghylch pleidleiswyr y Deyrnas Unedig yn arolwg wyneb i wyneb Astudiaethau Etholiadau Prydain (BES) o oedolion a'u hymgysylltiad â gwleidyddiaeth ac etholiadau cyffredinol yn benodol. Mae'r BES yn cynnwys mesur o 'ddilysu'r nifer a bleidleisiodd' ar gyfer ei ymatebwyr h.y. pa un ai a oedden nhw wedi dweud eu bod nhw wedi pleidleisio ai peidio, gall ddweud wrthym ni a wnaethon nhw bleidleisio yn ôl y gofrestr etholiadol

– dyma 'safon aur' ymddygiad pleidleiswyr ym Mhrydain.

Mae'r BES ar gyfer 2017 yn taflu cryn amheuaeth ar yr honiad bod 'youthquake' wedi digwydd, ac er bod y mwyafrif llethol o'r bobl ifanc a bleidleisiodd yn cefnogi'r Blaid Lafur, nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng eu nifer yn 2017 a'u nifer yn yr etholiad blaenorol. Tra cynyddodd nifer y pleidleiswyr yn raddol ar gyfer pob grŵp oedran ers i'r ffigurau gyrraedd isafbwynt yn 2005, mae tuedd cenhedlaeth y Mileniwm i fynd i bleidleisio yn parhau i fod ymhell y tu ôl i bobl hŷn na nhw.

Honiad rheolaidd arall am 'youthquake' yw bod pobl ifanc yn ymgysylltu mwy â gwleidyddiaeth, gan fod refferendwm Brexit ac apêl unigryw Jeremy Corbyn wedi rhoi mwy o reswm iddyn nhw gymryd diddordeb mewn gwleidyddiaeth. Fodd bynnag,

nid yw hyn yn cael ei ategu gan y dystiolaeth. Dengys y BES nid yn unig fod diddordeb gwleidyddol wedi aros yn gymharol ddigyfnewid ymysg yr holl etholwyr ers 2015, ond bod cenhedlaeth y Mileniwm yn dal i lusgo y tu ôl i'w hynafiaid. Er enghraifft, dywedodd 14% o genhedlaeth y Mileniwm fod ganddyn nhw 'diddordeb mawr' mewn gwleidyddiaeth – mae hyn yn cymharu ag un rhan o bump o genedlaethau'r 80au a'r 90au, a mwy na chwarter y genhedlaeth a aned wedi'r Ail Ryfel Byd.

Mae BES yn her ddifrifol i wleidyddion, academyddion a ddinasyddion sy'n pryderu ynghylch diddordeb pobl ifanc yn nemocratiaeth Prydain a gallu ein gwleidyddion a'n Seneddau i gynrychioli buddiannau eu dinasyddion. Mae pleidleisio mewn etholiadau, a diddordeb mewn gwleidyddiaeth, yn arferiad sy'n cael ei ddatblygu yn ystod plentynodod: mae rhywun sy'n mynd i'r arfer o bleidleisio ac yn cymryd diddordeb mewn digwyddiadau gwleidyddol erbyn eu bod yn 25 oed yn debygol o barhau i wneud hynny drwy gydol eu hoes fel oedolion. Ar y llaw arall, mae rhywun nad yw'n datblygu arfer o ddiddordeb gwleidyddol neu bleidleisio yn debygol o osgoi gorsafoedd pleidleisio pan fyddan nhw'n oedolion.

Mae cenhedlaeth y Mileniwm ym Mhrydain yn parhau i fod y garfan sydd â lleiaf o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth a'r rhai sy'n lleiaf brwd o blith yr etholwyr – ac nid yw refferendwm Brexit, arweinyddiaeth Jeremy Corbyn nac ymgyrch etholiad unigryw 2017 wedi gwneud unrhyw beth i newid hynny.

Y wers y gallwn ni ei dysgu o fyth 'youthquake', felly, yw y bydd hi'n cymryd llawer mwy o waith caled i wrthdroi'r dirywiad mewn diddordeb gwleidyddol a nifer y pleidleiswyr ymysg y genedlaethau iau na refferendwm dadleuol neu newid mewn arweinyddiaeth plaid.



Rhwydwaith Ymchwil Cyfranogiad Diwylliannol (CPRN)

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Cyfranogiad Diwylliannol (CPRN) yn dod ag academyddion, ymchwilwyr, sefydliadau cymunedol a pobl sy'n gweithio yn y sector diwylliannol (celfyddydau a threftadaeth) at ei gilydd i ddatblygu rhaglen sy'n ymchwilio i rôl y sectorau celfyddydau a diwylliant yn y gwaith o lunio polisiau, ymchwil a datblygu cymunedol.

Rydym hefyd yn ceisio gweithio gydag artistiaid a sefydliadau sydd wedi ymrwmo i fynd i'r afael â'r bwlch cyfranogiad a chydnyddiaeth, gan gydnabod bod y sector diwylliannol ei hun yn atgynhyrchu anghydraddoldebau o ran cynhyrchu a defnyddio cynnyrch diwylliannol.

Mae'r Rhwydwaith yn tyfu'n gyflym, gyda sefydliadau diwylliannol a chymunedol cenedlaethol a lleol yn awr yn cynnig manau i gyfranogwyr gwrdd. Caiff ei gefnogi fel un o rwydweithiau WISERD. Mae ymatebion hyd yma yn awgrymu fod pobl yn croesawu'r manau ar gyfer myfyrio beirniadol a thrafodaethau bywiog, ac ar gyfer mynegi, canfod a deall diddordebau cyffredin a gwahaniaethau.

Yn ddiweddar rydym wedi cyllido pum prosiect cyllid sbarduno a ddaeth i ben yn ystod y gwanwyn eleni. Maen nhw wedi cael nifer o effeithiau cadarnhaol ac wedi darparu syniadau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Mae'r themâu sydd wedi dod i'r amlwg hyd yma yn cynnwys theatr a pherfformiadwyedd data ar gyfer cyfnewid gwytodaeth, hunaniaeth 'dinas-ranbarth' a rôl y celfyddydau a diwylliant; treftadaeth ac adfywio yn seiliedig ar le penodol; a dulliau yn seiliedig ar y celfyddydau/diwylliant ar gyfer ymgysylltu a chynhyrchu data.

Fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr gyflawn, ac rydym yn rhagweld y bydd nifer o wahanol brosiectau cydweithredol a chynigion ymchwil yn cael eu cynhyrchu dros y misoedd nesaf.

I gael rhagor o wybodaeth am ymuno â rhwydwaith, neu gymryd rhan mewn cyfleoedd a digwyddiadau yn y dyfodol, ewch i www.wiserd.ac.uk

Lle i leisiau menywod duon a lleiafrifoedd ethnig ifanc ym mhroses Brexit

Gyda'r trafodaethau gadael rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig ar y gweill, cynhaliwyd yr astudiaeth hon mewn partneriaeth rhwng WISERD a Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru (EYST) am dri rheswm.

Yn gyntaf, yng ngeiriau Akwugo Emejulu, "er gwaethaf honiadau uchel eu cloch i'r gwrthwyneb, mae Brexit yn fater hiliol mewn gwirionedd". Bu cynnydd o 57% mewn digwyddiadau hiliol yn dilyn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ac, yn y cyd-destun hwn, nodir hil ac ethnigrwydd fel 'darn sydd ar goll' yn ein hastudiaeth WISERD o leisiau lleiafrifol ac ymylol yn ystod Brexit - bwlch a nodwyd gan Yasmin Begum a Mymuna Mohamood, aelodau o dîm EYST. Yn ail, yn debyg iawn i bobl ifanc - yr oedd mwyafrif llethol ohonyn nhw o blaid aros yn yr Undeb Ewropeaidd - roedd grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) o blaid aros yn yr Undeb Ewropeaidd, gyda 75% o bleidleiswyr BME wedi ffafrio aros yn yr Undeb Ewropeaidd. Yn olaf, fe wnaethom ddewis gweithio gyda menywod ifanc duon a lleiafrifoedd ethnig oherwydd ein bod yn teimlo y byddai casglu data mewn amgylchedd â menywod yn unig yn creu lle diogel i gyfranogwyr leisio eu barn a'u profiadau.

Y canfyddiadau hyd yn hyn

Mae'r astudiaeth gwmpasu fechan hon wedi casglu data gan grwpiau ffocws gydag 11 o fenywod duon a lleiafrifoedd ethnig ifanc rhwng 15 a 25 oed. Roedd y menywod yn dod o gefndiroedd a threftadaethau amrywiol, gan gynnwys y rhai a aned yng Nghymru a thu hwnt, ac roedden nhw i gyd yn Fwslimiaid.



Roedd y geiriau a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r trosiad cyn Brexit yn gadarnhaol dros ben ac yn canolbwyntio i raddau helaeth ar deimladau o berthyn: 'hapus', 'unedig', 'gyda'n gilydd', 'iawn'. Po agosaf y daeth pob disgrifiad at refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, y mwyafrif roedd geiriau fel 'poeni', 'synnu' a 'phryder' yn codi.

Roedd trafodaethau ar 'y cyfnod ar ôl y bleidlais Brexit' yn negyddol i raddau helaeth, ac yn cynnwys y geiriau: 'nerfus', 'sioc', 'siomedig' ac 'anhapus'. Roedd disgrifiadau llai goddefol yn cynnwys 'dicter', 'llygredd', 'rhwystredigaeth' a 'bradychu'. Disgrifiodd mwy nag un cyfranogwr eu bod yn teimlo'n 'annïogel' ac 'ofnus'. Trafododd y cyfranogwyr hefyd newid barn yn gysylltiedig â sut mae 'eraill' yn eu hystyried 'ar ôl Brexit'. Symudodd nifer oddi wrth y dybiaeth fod yr unigolyn nodweddiadol ar y stryd yn oddefgar, neu o leiaf yn niwtral, tuag at eu gwisg neu acen, gan ddisgrifio eu bod wedi mynd yn fwy ansicr ynghylch sut mae eraill yn eu gweld. Roedd bod yn geisiwr lloches yn ffynhonnell ychwanegol o bryder ar gyfer tri o'r 11 cyfranogwr; gyda'r ansicrwydd cynyddol mewn sefyllfa sy'n ansicr yn barod yn dwysáu effaith Brexit.

Blog ar y cyd rhwng Dr Sioned Pearce a Dr Esther Muddiman



Trafodaeth

Mae'r themâu sy'n deillio o'r gyfres gyntaf hon o ddata yn cynnwys colli ymdeimlad o sicrwydd a theimlad o berthyn. Yn achos menywod y prosiect, mae canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd wedi achosi teimladau parhaus o unigrwydd a dieithrio - amlygwyd tebygrwydd â dioddef digwyddiad hiliol gan drafodaethau ynghylch 'adfer' a 'byw bywyd normal', ymadroddion sy'n gysylltiedig â thrawma neu sioc.

Bydd y prosiect hwn yn parhau i gynnal grwpiau ffocws i gasglu safbwyntiau BREXIT ymhlith pobl ifanc, menywod duon a lleiafrifoedd ethnig mewn partneriaeth gydag EYST. Bydd hefyd yn darparu hyfforddiant 'sgiliau ymchwil gweithredol' i gyfranogwyr y grwpiau ffocws.

Mae diolchiadau'n ddyledus i'r holl bartneriaid yn EYST, ac yn enwedig i Yasmin Begum, Mymuna Mohamood, Ginger Weigand, Dr Constantino Dumangane Jn. a Dr Dawn Mannay

Archwilio newid sefydliadol yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Mae Patricia Jimenez, sy'n gynorthwydd ymchwil yn WISERD, yn gweithio gydag Amgueddfa Cymru i asesu'r prosiect 'Mwy a Gwell', a gaiff ei gyllido gan Sefydliad Paul Hamlyn.


Yng nghyd-destun y prosiect Mwy a Gwell, bydd Patricia yn ymchwilio i ba raddau mae newid sefydliadol yn digwydd – a'r modd y mae hynny'n digwydd – o fewn pedwar lleoliad Amgueddfa Cymru (Yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Big Pit a'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol).

Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys nodi meysydd hollbwysig gweithredu'r prosiect Mwy a Gwell, yn ogystal â dealltwriaeth aelodau o staff ohono. Bydd technegau casglu data gan amlaf yn cynnwys arsylwadau gan gyfranogwyr ac eraill o'r tu allan, fel sylw cyffredinol o fewn ystafelloedd cyfarfod ac orielau neu arsylwi mewn lleoliad llai ffurfiol fel yn ystod amser cinio neu egwyl ad hoc. Yn ogystal, bydd cyfweiliadau lled-strwythuredig gydag aelodau'r staff ar wahanol adegau.

Pan ofynnwyd pam roedd y prosiect hwn wedi ei hysbrydoli, atebodd Patricia gan ddweud 'Roeddwn yn meddwl y byddai'r prosiect hwn yn gyfle da i ystyried y math o fewnwelediad y gall ethnograffeg ei nodi mewn cyd-destun

cymdeithasol-wleidyddol a nodweddir gan reol safonau a dangosyddion llwyddiant rhifol. Gwelais bod hwn yn gyfle anhygoel o werthfawr i ddod yn fwy cyfarwydd â Chymru'.

'Mae'r traddodiad o ymchwilio i amgueddfeydd fel arfer yn canolbwyntio ar ymchwilio i 'gynnyrch terfynol' – e.e. arddangosfeydd – gan anwybyddu prosesau cyffredin sy'n achosi problemau sy'n arwain at gyflawni'r cynhyrchion hyn, felly mae'r prosiect hwn yn rhoi sylw i'r broses yn lle hynny, ac mae hynny'n rhywbeth diddorol iawn yn fy marn i'.



Lluniau [o'r brig i'r gwaelod]:

Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd / Llun: Steinsky [cc-by-sa/2.5]

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan / Llun: David Neild [cc-by-sa/3.0]

Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Big Pit / Llun: ©Mick Lobb [cc-by-sa/2.0]

Amgueddfa Lechi Genedlaethol / Llun: Ham II [cc-by-sa 3.0]

Rhannu ymchwil ac ymestyn dysgu

Dr Christala Sophocleous yn myfyrio ar y profiad o gyd-ysgrifennu gyda chydweithwyr yn WISERD.

Beth wnaethon ni ei ddysgu o Cymunedau yn Gyntaf? Y cwestiwn hwn oedd wrth wraidd llawer o ddadleuon (rhai ffyrnig yn aml), wrth i'r rhaglen hon gan y Llywodraeth ddod i ben. Ledled Cymru, mewn cymunedau, cylchoedd polisi ac yn y byd academiaidd, roedd Cymunedau yn Gyntaf yn ennyn ymateb. Nid oedd y roedd rhai ohonom yn WISERD yr oedd ein hymchwil yn canolbwyntio ar Cymunedau yn Gyntaf yn eithriad. Roeddem yn ofni bod hanes yn cael ei ailysgrifennu, gyda Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei labelu'n rhy syml fel 'methiant'. Yn y cyd-destun hwn, dechreuodd pedwar ymchwilydd yn WISERD fyfrio ar ein gwaith drwy sgysgiau anffurfiol ac ambell seminar wedi eu hamseru ar hap.

Drwy rhannu a thrafod ein gwaith ymchwil, fe wnaethom sylweddoli bod llawer yn gyffredin rhwng ein gwaith, gyda themâu tebyg ac aliniad rhyfeddol yn y canfyddiadau.

Roedd hyn i gyd yn fwy nodedig oherwydd rhyngom roeddem wedi

gweithio ar chwe phrosiect ymchwil, ar draws cyfnod 10 mlynedd o 2008 ymlaen. Roedd gan bob un ffocws gwahanol, ac roedden nhw wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwahanol.

Roedd hyn yn ymddangos yn arwyddocaol, ac yn galw am waith ymchwil mwy gofalus. Daeth ein trafodaethau yn fwy systematig, gan roi sylw i lle'r oedd ein canfyddiadau a'n dadansoddiadau'n debyg neu'n ategol, a lle'r oedden nhw'n wahanol. Er bod pob prosiect yn annibynnol, roedd dod â'n dadansoddiadau at ei gilydd yn creu dyfnder a rhagor o fewnwelediad, gan gynhyrchu dadansoddiad cyfunol newydd. Fe wnaethom ddechrau holi ein hunain 'Beth allem ni ei ddweud am Cymunedau yn Gyntaf ar y cyd na allem ei ddweud yn unigol?'

Drwy weithio gyda'i gilydd a myfyrio'n ddadansoddol ar sut gellid harneisio ymchwil gwahanol â methodoleg tebyg ond nodedig er mwyn sicrhau mwy o fewnwelediad, rydym wedi ysgrifennu papur ar y cyd, a fydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer ei gyhoeddi cyn bo hir. Mae'n rhoi sylw i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'i le yn y

broses o lunio polisiâu a'u rhoi ar waith yng Nghymru.

Nid yw'r papur yn synthesis, er bod elfen o dynnu ein gwaith at ei gilydd, ond yn hytrach mae'n estyniad o'r dadansoddiad. Y mae wedi datblygu drwy sgwrs barhaus rhyngom ni a'n hastudiaethau unigol; gan symud yn ôl a blaen rhwng dadansoddiadau mewn ffordd hyd yn oed yn fwy systematig, a dod i'r amlwg yn araf drwy broses o fireinio. Mae pob awdur ychwanegu, diwygio, a mireinio'r dadleuon, gan arwain at ragor o ffocws. Mae'r dadansoddiad yn gryfach oherwydd ein dull ailadroddol a'i gwreiddiau mewn prosiectau ymchwil gwahanol.

Mae cyd-ysgrifennu ar draws prosiectau wedi bod yn brofiad newydd i bawb ohonom, ac mae wedi codi rhai materion diddorol, e.e. ynghylch beth yw 'data?' a dilysrwydd defnyddio data a gasglwyd mewn un cyd-destun mewn un arall. Rydym wedi myfyrio ar werth rhannu gwaith a'r hyn y gellid ei ennill wrth wneud hynny. Mae rhannu lleoliad yng Nghanolfan WISERD yng Nghaerdydd yn arwyddocaol, gan ei fod wedi creu cyfle i ddatblygu gwaith ar y cyd. Mae'r amgylchedd hwn yn caniatáu ac yn annog ymchwilwyr i rannu syniadau, cwestiynu a myfyrio, cefnogi cydweithio ar draws prosiectau a'n galluogi ni i ofyn sut gall ein gwaith amrywiol lywio materion cymdeithasol. Felly, er nad oes modd i ni ateb y cwestiwn 'Beth wnaethon ni ei ddysgu gan Cymunedau yn Gyntaf?' ar y cyd, rydym wedi gallu gwneud cyfraniadau bach, ond mwy gwybodus.

Y 4 ymchwilydd a fu'n rhan o'r prosiect ysgrifennu ar y cyd hwn yw



Dr Sioned Pearce

PearceS11@cardiff.ac.uk / @sionedpearce



Dr Eva Elliott

elliott@cardiff.ac.uk / @WISERDNews



Dr Helen Blakely

BlakelyH1@cardiff.ac.uk / @WISERDNews



Dr Christala Sophocleous

SophocleousC1@cardiff.ac.uk / @DrChristala

Codi pontydd, nid muriau

Mae'n bosibl bod Cymru yn y 1950au yn ymddangos yn lle rhyfedd i ddechrau blog am effaith BREXIT ar bobl ifanc ac am botensial pobl ifanc i ddylanwadu ar Brexit. Fodd bynnag, roedd y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn gyfnod pan oedd cwestiynau sylfaenol yn cael eu gofyn am natur hunaniaeth mewn gwladwriaethau ledled Ewrop.

Daeth un cyfraniad diddorol o Gymru at y drafodaeth hon ynglŷn â sut i lunio dyfodol Ewrop yng nghyd-destun gwaith Urdd Gobaith Cymru, a gafodd eu creu yn 1922 fel mudiad Cymraeg cyfatebol i'r Sgowntiaid a'r Geidiaid.

Roedd yr Urdd yn rhoi pwyslais mawr ar ddyngarwch ac ar yr angen i godi pontydd rhwng gwahanol gymunedau. Roedd ail elfen ei arwyddair yn pwysleisio'r angen i fod yn ffyddlon i gyd-ddyn; dau ymrwymiad sy'n parhau hyd heddiw.

Yn ystod y 1950au, roedd yr Urdd yn noddi triapiau ar gyfer ei aelodau i wahanol wledydd yn Ewrop, gan gynnwys Bielefeld, Oberammergau yn yr Almaen, prifddinas Sbaen, Madrid; roedd hefyd yn annog pobl o Ewrop a thu hwnt i ymweld â Chymru.

Mae'n bosibl bod rhai gwersi y gellir eu dysgu gan bobl ifanc a sefydliadau ieuencid yng Nghymru am weithgareddau'r Urdd:

Yn gyntaf, mae'n bosibl herio codi muriau neu ffiniau rhwng gwahanol

wledydd a gwladwriaethau – yn enwedig rhwng y Deyrnas Unedig ac Ewrop – a allai fod yn un o ganlyniadau BREXIT. Roedd Ewrop yn ystod y 50au yn gyfandir rhanedig, ac eto roedd pobl ifanc a sefydliadau ieuencid yn benderfynol o godi pontydd ar draws y cyfandir; drwy eiriau a gweithredoedd.

Yn ail, roedd hon yn ddeialog a oedd yn cael ei hyrwyddo a'i chynnal yn absenoldeb unrhyw seilwaith sefydliadol ar lefel Ewropeaidd. Nid oedd Undeb Ewropeaidd yn bodoli ar y pryd, ac eto roedd pobl ifanc a sefydliadau fel yr Urdd yn chwilio am ffyrdd llawn dychymyg o greu deialog rhwng gwledydd.

Yn drydydd, dengys yr enghraifft o'r 1950au y rôl bwysig y gall sefydliadau ieuencid gwirfoddol ei chwarae o ran meithrin cysylltiadau rhwng pobl ifanc yn Ewrop. Mae cwestiynau wedi cael eu gofyn ynghylch hyd a lled rôl sefydliadau ieuencid a sut mae modd iddyn nhw barhau i helpu pobl ifanc i ddatblygu eu hunaniaeth

eu hunain yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, yn enwedig oherwydd toriadau sy'n gysylltiedig â chyni ariannol. Dadleuaf fod rhagor o angen yn awr nag erioed o'r blaen iddyn nhw ddarparu cymaint o gymorth ag y gallan nhw i bobl ifanc gynnal cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli a meithrin rhai newydd gydag ieuencid o bell, lle bynnag y maen nhw.



Yr Athro Rhys Jones

Mae'r Athro Rhys Jones yn ddaearyddwr gwleidyddol sy'n astudio'r gwladwriaethau, cenedlaetholdeb a'r Gymraeg. Mae'n gweithio ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn rhan o'r tîm ymchwil WISERD sy'n archwilio 'Addysg, iaith a hunaniaeth'.

I gael rhagor o wybodaeth am waith yr Athro Rhys Jones, ewch i www.wiserd.ac.uk/rhysjones



Rhys Davies sy'n dangos bod presenoldeb undebau llafur yng ngweithleoedd y DU yn uwch na'r hyn a ddangosir yn y ffigurau swyddogol.

Yr haf hwn cyhoeddodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ei hamcangyfrifon diweddaraf ar gyfer aelodaeth undebau llafur yn y DU yn seiliedig ar ddata'r Arolwg o'r Llafurlu.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod 6.2 miliwn o weithwyr yn aelod o undeb llafur yn 2017. Er bod lefelau aelodaeth cyffredinol yn y DU wedi cynyddu ychydig ers 2016, maen nhw'n dal i fod gryn dipyn yn is na'r pwynt uchaf, sef 13.2 miliwn yn 1979. Y prif ffigur ar gyfer aelodaeth undebau llafur yw 'dwysedd undebau' sy'n mesur y gyfran o weithwyr mewn cyflogaeth sy'n aelod o undeb llafur. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos mai dim ond 23% o weithwyr yn y DU oedd yn aelod o undeb llafur yn

2017. Ugain mlynedd yn ôl, 30% oedd y dwysedd undebau.

Fodd bynnag, mae dylanwad undebau llafur yn y gweithle yn estyn y tu hwnt i'r rhai sy'n aelodau. Mae ystadegau swyddogol a gynhyrchwyd gan BEIS yn amcangyfrif y gyfran o weithwyr sydd wedi eu cyflogi mewn gweithleoedd lle mae undebau llafur yn bresennol, a elwir presenoldeb undebau. Daw'r ffigurau hyn hefyd o ddata cyfweiliadau a gasglwyd gan yr Arolwg o'r Llafurlu. Rhwng 1996 a 2016, fe wnaeth amcangyfrifon swyddogol o bresenoldeb undebau llafur hefyd leihau o 50% i 41%.

Mae ymchwil gan Rhys Davies yn WISERD wedi dangos bod ystadegau swyddogol ynghylch presenoldeb undebau llafur wedi cael eu hamcangyfrif yn anghywir dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Mae ystadegwyr y llywodraeth wedi trin y rhai na ymatebodd i'r cwestiwn ynglŷn â phresenoldeb undebau llafur fel pe baent wedi dweud bod neb yn eu gweithle yn aelod o undeb llafur. Yn ôl y dull arferol byddai pobl o'r fath yn cael eu heithrio o'r cyfrifiadau.

Yn sgîl hyn, mae ystadegwyr yn BEIS wedi adolygu eu methodoleg ar gyfer amcangyfrif presenoldeb

undebau llafur. Mae'r cyhoeddiad hwn yn dangos bod 49% o weithwyr wedi eu cyflogi mewn gweithleoedd lle mae undebau llafur yn bresennol. Mae'r newid wedi cael yr effaith o gynyddu cyfradd presenoldeb undebau 8 pwynt canran, sy'n cyfateb yn fras i 2 miliwn o weithwyr.

Dywedodd Rhys Davies:

"Yn aml, cyfeirir at y gostyngiad mewn aelodaeth o undebau llafur fel tystiolaeth bod undebau llafur wedi dod yn llai perthnasol yn economi'r DU. Felly er nad oes amheuaeth ynglŷn â'r duedd ar i lawr mewn aelodaeth undebau, mae llawer mwy o weithwyr wedi eu cyflogi mewn gweithleoedd lle mae undebau llafur yn bresennol nag yr oeddem yn tybio'n flaenorol. Mae hyn yn awgrymu bod dylanwad undebau llafur mewn gweithleoedd yn y DU gryn dipyn yn uwch nag oeddem yn tybio ers blynnyddoedd lawer."

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil hon, gweler erthygl Blog WISERD Measuring Trade Union Membership: Harder than it may seem? Mae dadansoddiad mwy manwl ar gael yn y Nodyn Ymchwil Making Sense of Official Estimates of Trade Union Membership.



Dr Rhys Davies

Mae Dr Rhys Davies yn Gymrawd Ymchwil yn WISERD ac yn Gyfarwyddwr Cyswllt Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.

Fel ymchwilydd dulliau meintiol cymhwysol mae Rhys wedi ymgymryd â nifer o brosiectau ymchwil sy'n archwilio amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a'r farchnad lafur.

Cyn ymuno â WISERD bu'n gweithio yn y Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth ym Mhrifysgol Warwick a'r S Wyddfa Ystadegau Gwladol.

wiserd.ac.uk/about-us/people/rhys-davies



Mae Sheffield angen codiad cyflog

Mae prosiect ymchwil Mae Sheffield Angen Codiad Cyflog (SNAP) yn dilyn ymgyrch o'r un enw ac yn adeiladu ar brosiect ymchwil mannau newydd lleoliaeth cymdeithas sifil WISERD. Mae'n edrych yn bennaf ar ffurfiau o gydweithio ar lawr gwlad, mewn cymdeithas sifil a gan undebau llafur i fynd i'r afael â materion cyflog isel a natur fregus gwaith yn Sheffield.



Dr David Beel

Ar ôl cwblhau ei radd mewn Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Hull, ac yna gradd Meistr a PhD ym Mhrifysgol Glasgow, unwaith eto mewn Daearyddiaeth, daeth yn Gymrawd Ymchwil ym Mhrifysgol Aberdeen, gan weithio yng nghanolbwynt economi ddigidol dot.rural. Erbyn hyn ef yw'r Uwch Ymchwilydd prosiect mannau lleoliaeth newydd sy'n rhan o ganolfan ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD. Mae gan y prosiect ddiddordeb mewn deall y ffyrdd mae lleoliaeth a datganoli newydd yn cael eu darparu ar raddfa dinas-ranbarthau yn y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth am waith Dr David Beel, ewch i wiserd.ac.uk/about-us/people/david-beel

Mae SNAP yn ymgyrch a ddechreuwyd gan Gyngor Undebau Llafur Sheffield (STUC). Prif ysgogiad yr ymgyrch oedd y cam blaenorol i greu ymgyrch Mae Prydain angen codiad cyflog a

drefnwyd gan Gyngres Genedlaethol yr Undebau Llafur a ddaeth i rym yn ystod hydref 2014. Mae STUC wedi ceisio datblygu'r ymgyrch hon yn nes at lawr gwlad.


Yn ail, trawyd STUC gan gyfres o adroddiadau gan y Resolution Foundation, a oedd yn dangos mai gan ddinas Sheffield oedd y gyfran fwyaf o weithlu a oedd yn cael tâl is na'r cyflog byw Cenedlaethol. Y mae wedi dioddef y gostyngiad cyflog mwyaf o blith Dinasoedd Craidd y Deyrnas Unedig ers dyfodiad y dirwasgiad yn 2008, wedi dioddef fwyaf o faterion sy'n gysylltiedig â chyflogau isel, ac o ganlyniad o bosibl sydd â'r mwyaf i'w ennill o gyflwyno Cyflog Byw Cenedlaethol y llywodraeth Geidwadol. Amlygodd hyn i STUC y rheidrwyd i ymgyrchu mwy ynghylch materion cyflogau.

Yn olaf, mae STUC yn llawn edmygedd o lwyddiannau strategaethau trefniadaethol newydd arloesol a ddefnyddiwyd gan undebau fel y GMB, UNITE a BFAWU, ac mae wedi ceisio rhannu arferion gorau ac ailadrodd gwaith o'r fath ymysg canghennau undebau llafur yn y ddinas. Lanswyd SNAP yn swyddogol ar 14 Hydref gan John McDonnell AS, Canghellor

y Trysorlys yn yr wrthblaid, mewn digwyddiad o gwmpas y bwrdd gyda chynrychiolwyr o UNITE, BFAWU, GMB ac STUC.

Mae ein prosiect wedi ceisio tynnu sylw at arferion gorau o ran mynd i'r afael â materion cyflog isel a natur fregus gwaith, ac mae'n ymestyn gwaith ymchwil dylanwadol a gyllidwyd gan WISERD drwy bwysu ar y cysylltiadau rhwng cymdeithas sifil, cyflogaeth a sgiliau. Bydd y tîm yn cyflwyno ein canfyddiadau ymchwil yn ôl i'r gymuned yn Sheffield mewn digwyddiad a drefnwyd gan STUC.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o'n pecyn gwaith 1.4 sy'n cynnwys ymchwil helaeth o dan y pennawd - Mannau Lleoliaeth: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Datblygu Economaidd yng Nghymru a Lloegr. Mae'n brosiect y mae Dr David Beel, yr Athro Martin Jones (Prifysgol Swydd Stafford) a Chyfarwyddwr WISERD, yr Athro Ian Rees Jones, yn gyfrifol amdano ar y cyd. Mae hwn yn ddarn o waith ar y cyd â chydweithwyr, sef Dr. David Etherington (Prifysgol Middlesex) a Dr. Robert Jefferey a Dr. Peter Thomas (Prifysgol Sheffield Hallam).



NEWYDDION

Rhes gefn, chwith i'r dde - Chris Fowler
a Dr Scott Orford
Rhes flaen, chwith i'r dde - Carole Green,
Beverly Owen, Dr Eleri Rosser a Simon Baston

Lansio ymchwil i siopau gwag yn Uwchgynhadledd Manwerthu a Hamdden Cymru

Yn 2017 bu gostyngiad bychan yn nifer y siopau gwag ar y stryd fawr yng Nghymru, ond roedd y nifer yn dal yn llawer uwch na Lloegr neu'r Alban, yn ôl adroddiad newydd a luniwyd gan academyddion WISERD.

Bu'r ymchwilwyr data Dr Scott Orford a Samuel Jones yn gweithio gyda'r Local Data Company ar yr adroddiad, gan weld cysylltiad clir rhwng cyfraddau siopau gwag a lefelau amddifadedd lleol.

Cafodd yr adroddiad ei lansio yn 3ed Uwchgynhadledd Adwerthu a Hamdden Cymru, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018 ym Mhrifysgol Caerdydd.


Roedd 62 o bobl o bob rhan o'r diwydiant manwerthu a hamdden yn bresennol yn y digwyddiad, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan Dr Orford a Chris Fowler o Local Data Company.

Bu Golygydd Busnes ITV Cymru, Carole Green, yn cadeirio panel o arbenigwyr manwerthu a oedd yn cynnwys Dr Eleri Rosier (Ysgol Busnes Prifysgol Caerdydd), Simon Baston (Loftco) a Beverly Owen (Cyngor Dinas Casnewydd).

Gallwch weld negeseuon trydar o'r digwyddiad yma: bit.ly/2HkdQX0 a llwytho i lawr yr adroddiad llawn yma: bit.ly/2JtSdt6

Roedd Dr Scott Orford hefyd yn rhan o ddwy rhaglen mewn cyfres o dair dan y teitl 'You and Yours' ar BBC Radio 4 a oedd yn archwilio'r mater hwn.

Gallwch wrando ar y rhain yma: bit.ly/2JtSs7u



Sut cafodd 'McStreic' gyntaf y Deyrnas Unedig ei thrydar

Ym mis Medi 2017, aeth gweithwyr McDonald's ar streic am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Dadansoddodd ymchwilyr yn WISERD y sgwrs ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch y 'McStreic' ar y pryd. Dyma amlinelliad Wil Chivers o ganfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil hwn.

Gweithwyr ifanc yn uno

Mae McDonald's yn un sy'n defnyddio contractau dim oriau yn helaeth iawn, gan gyflogi 90% o'i weithlu yn y modd hwn yn ôl y sôn (gyda 42% ohonyn nhw o dan 21 oed).

Mae beirniaid yn ymosod ar y trefniadau hyn fel rhai camfanteisiol, yn enwedig yn achos pobl ar gyflogau isel, ac mae gweithwyr wedi ymateb drwy weithredu ar y cyd yn barhaus i frwydro dros waith gweddus o amgylch y byd, yn fwyaf nodedig y frwydr dros \$15 yn yr Unol Daleithiau.



Dr Wil Chivers
Cydymaith Ymchwil
Cyfryngau
Cymdeithasol

Mae Wil yn Gydymaith Ymchwil WISERD sy'n gweithio yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ei draethawd PhD yn archwilio natur llywodraethu cyfoes drwy edrych ar dirwedd newidiol ymrwrthedd a gwyliadwriaeth ddigidol.

Mae Will yn gweithio ar draws rhaglen ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD, gan archwilio'r berthynas rhwng ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol a chymdeithas sifil.

wiserd.ac.uk/about-us/people/wil-chivers

Ar 4 Medi 2017, aeth 40 o weithwyr McDonald's mewn dau fwyty yn y Deyrnas Unedig, yn 25 oed neu'n iau yn bennaf, ar streic am £10 yr awr, terfyn ar gontractau oriau sero a chydabyddiaeth o'u hundeb.

#McStrike ar Twitter

Un elfen allweddol o'r ymgyrch oedd y ffordd roedd presenoldeb corfforol ar y llinell biced yn cael ei ategu gan ei bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd McStrike yn hashnod syml ac effeithiol (rhyw fath o McStrôc o athrylith, os hoffech chi), a thrwy ddefnyddio'r hashnod hwn, casglodd ein tîm ymchwil ddata byw o Twitter dros y pythefnos cyn, yn ystod ac ar ôl y streic. Cynhyrchodd hyn ychydig dros 90,000 o negeseuon trydar yn cynnwys #McStrike, gan 46,247 o ddefnyddwyr gwahanol. Fe wnaethom ddadansoddi'r gweithgaredd hwn, gan nodi cyfrifon Twitter a negeseuon trydar dylanwadol. Mae'r ddelwedd rhwydwaith aildrydar isod yn crynhoi gweithgarwch yr wythnos gyntaf:

Cynlluniwyd yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i roi pwysau ar frand McDonald's drwy lunio'r brotest ar naratif cyfiawnder cymdeithasol a chryf, gan harneisio pŵer symbolaidd y gweithwyr. Nid yw'n syndod mai nodweddion diffiniol gweithgarwch Twitter ar ddiwrnod y streic oedd trydariadau ac ail-drydariadau o luniau a fideos o'r llinellau piced.



Figure 1

McStreicwyr yn llygaid y cyhoedd

Mae archwiliad manylach o weithgarwch McStrike ar Twitter yn datgelu un strategaeth gyfathrebu rydym yn bwriadu ei dadansoddi'n fanylach: rhoi lle amlwg i weithwyr ifanc yn yr ymgyrch. Mewn adroddiadau ysgrifenedig ac, yn fwy arbennig, mewn lluniau a fideos, defnyddiwyd straeon y McStreicwyr i bersonoli'r streic ac ysgogi cefnogaeth boblogaidd. Er bod y McStreic yn rhan o ymgyrch mudiad llafur ehangach, ac yn parhau i fod felly, mae'n werth nodi cefnogaeth 'cefn llwyfan' undeb y streicwyr, sef Undeb y Pobyddion, Gweithwyr Bwyd a Gweithwyr Cysylltiedig, a sefydliadau cymdeithas sifil fel War on Want.

Damcaniaethu'r streic

Er na tharfodd y McStreic rhyw lawer ar weithrediadau McDonald's o ddydd i ddydd, ym mis Ionawr 2018 argymhellodd McDonald's y dylai ei 1,200 o fasnachfreintiau, sy'n pennu eu cyfraddau cyflog eu hunain, gynyddu'r cyflog ar gyfer pob aelod o staff. Bydd ein gwaith ymchwil yn parhau i archwilio oblygiadau'r McStreic o ran sut rydym yn ailffurfio cysyniadu traddodiadol o weithgarwch streic yn yr oes gyfoes, yn enwedig i ganlyn cyfryngau cymdeithasol.

Diolch arbennig i Helen Blakely a Steve Davies

Ymatebion Undebau Llafur i newidiadau ym myd gwaith

Mae Dr Helen Blakely, sy'n ymchwilydd yn WISERD, yn gweithio gydag UNI Global Union i nodi ymatebion undebau llafur i fyd newidiol y gweithle o gwmpas y byd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflwyno yng Nghyngres Byd Uni Global Union ym mis Mehefin 2018, y cyfarfod byd-eang unigol mwyaf yn y Deyrnas Unedig yn 2018. Yma, mae Dr Blakely a'i thîm yn amlinellu rhai o'r astudiaethau achos maen nhw wedi bod yn eu harchwilio, ac yn myfyrio ar rai o'r heriau sy'n wynebu undebau llafur ar hyn o bryd.

Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio gydag UNI Global Union i ystyried sut mae undebau llafur yn addasu i fyd gwaith sy'n newid yn gyflym - mater sy'n ysgogi dadl ar raddfa fyd-eang. Mae UNI yn cynrychioli mwy na 20 miliwn o weithwyr o dros 900 o undebau llafur yn y sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y byd – sgiliau a gwasanaethau. Mae disgwyl y bydd cyfanswm o 90% o swyddi newydd yn y sectorau hyn yn y degawd nesaf. Mae UNI a'i gysylltiadau yn cael eu gyrru gan y cyfrifoldeb i sicrhau bod y swyddi hyn yn weddus a bod hawliau gweithwyr yn cael eu diogelu, gan gynnwys yr hawl i ymuno ag undeb.

Mae hwn yn brosiect ansoddol sy'n canolbwyntio ar nifer o astudiaethau achos o weithgarwch undeb llafur o amgylch y byd. Mae'r astudiaethau achos yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgarwch, ond yn y bôn mae'r holl undebau yn ceisio mynd i'r afael â mater sefydlu cynrychiolaeth effeithiol – pa un ai o ran adeiladu ar lwyddiant yn y gorffennol, a thyfu undeb presennol mewn ffyrdd newydd, neu ffurfio undebau newydd i fynd i'r afael â heriau cyfoes. Mae'r astudiaethau achos yn adlewyrchu rhychwant o

ymatebion undebau llafur, o ffurfiau o fudiadau cymdeithasol ac undebau cymunedol, heb 'ddwyn ffrwyth' ar unwaith o ran sicrhau cydfargeinio na ffioedd aelodaeth i undebau, i weithgarwch sydd wedi sicrhau cytundebau cydfargeinio a chynnydd trawsnewidiol mewn aelodaeth.

Mae rhai wedi datblygu ymagweddau newydd o fewn cyfundrefnau sefydledig, fel yn achos Unite yn y Deyrnas Unedig â'i ymgrychu dylanwadol effeithiol iawn, ac achosion yn yr Almaen (ver.di), yr Iseldiroedd (FNV) a Ffrainc (CFDT, CGT, FO), sy'n ymwneud â gweithgarwch undebau mewn ymateb uniongyrchol i ddigideiddio ac awtomeiddio gwaith. Mae'r rhai sy'n gweithio mewn meysydd newydd ac yn creu undebau newydd mewn ymateb i ddarnio'r economi fyd-eang yn cynnwys SITT yn Romania a SITRATTEL yn y Weriniaeth Ddominicaidd. Yn ogystal, ceir gwaith gwerthfawr sy'n dangos gallu undebau i fod o fudd i'r gymdeithas y tu hwnt i'r gweithle. Mae'n bosibl mai'r enghraifft fwyaf trawiadol o hyn yw yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, lle mae FNTPC wedi ehangu ei weithgarwch i helpu i ddatblygu seilwaith post y genedl.



**Dr
Helen
Blakely**

Mae Dr Helen Blakely ar hyn o bryd yn gweithio gyda Dr Steve Davies, sy'n Uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd, i ddysgu mwy am ymatebion undebau llafur i'r byd gwaith sy'n newid. Mae'r ymchwil hwn yn deillio o'r cydweithio parhaus gydag UNI Global Union sy'n brwydro i sicrhau gwaith gweddus i bobl ledled y byd. Mae Helen yn Gydymaith Ymchwil ar brosiect Canolfan ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol - 'Aelodaeth o Undeb Llafur, Bywyd Cysylltiadol a Llesiant'

wiserd.ac.uk/about-us/people/helen-blakely

Mae'r astudiaeth yn dangos gallu undebau i ymateb i heriau newydd. Rydym wedi canfod ei bod yn bosibl mewn cyd-destunau penodol i undebau ysgogi a chryfhau ffynonellau pŵer presennol a harneisio adnoddau a galluoedd newydd i greu llwybrau uniongyrchol ac anuniongyrchol at enillion cynaliadwy ar gyfer y mudiad llafur.

Menywod ym myd chwaraeon: Myfyrdodau ar interniaeth myfyriwr dros dri mis

Mae Philippa Davies yn un o fyfyrwyr PhD WISERD, wedi ei chyllido gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, yn y Ganolfan Ymchwil Cymdeithas Sifil. Fel rhan o'i hastudiaethau, yn ddiweddar cwblhaodd interniaeth ag Elusen Menywod ym Myd Chwaraeon (Women in Sport). Mae ei hymchwil yn archwilio cynrychiolaeth y rhyweddau ym myd chwaraeon Cymru, ac mae'n sôn isod am ei chyfnod gyda'r elusen a sut y dylanwadodd hynny ar ei hymchwil.

Rôl yr elusen Menywod ym Myd Chwaraeon yw hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhyweddau o fewn y byd chwaraeon, a gweithio tuag at sicrhau sector lle mae dynion a menywod yn cael cyfle cyfartal ym myd chwaraeon, o'r cae chwarae i ystafell y bwrdd. Dewisais Menywod ym Myd Chwaraeon gan fy mod i eisiau cael dealltwriaeth drylwyr o brofiadau arweinwyr benyw mewn elusen chwaraeon fawr sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhyweddau.



Philippa Davies

Mae Philippa Davies yn fyfyrwr PhD yn WISERD. Pwnc ei hymchwil yw cydraddoldeb rhwng y rhyweddau ym mholisi chwaraeon Cymru - yn benodol, archwilio menywod sy'n arweinwyr ym maes chwaraeon a llunwyr polisi, sut maen nhw'n cael eu cynrychioli, eu profiad o lunio polisiau cydraddoldeb rhwng y rhyweddau yng Nghymru a'u heffaith ar gydraddoldeb rhwng y rhyweddau mewn llunio polisi chwaraeon yng Nghymru.

wiserd.ac.uk/about-us/people/philippa-davies

Roedd yr interniaeth yn cynnwys gwaith gyda'i thîm Mewnwelediad ac Arloesi, gan gyflawni tasgau penodol i gefnogi prosiectau ymchwil cyfredol, fel ysgrifennu adolygiadau a sesiynau briffio ar bynciau yn ymwneud ag arweinyddiaeth chwaraeon a menywod. Fe wnes i hefyd gysgodi prosiect ymchwil a chyfarfodydd tîm a mynd i sesiynau cyfnewid grwpiau ar gyfer prosiect ymchwil Arweinyddiaeth Benywaidd mewn Chwaraeon 'Beyond 30%'.


Mae'r hyn a ddysgais yn ystod fy nghyfnod gyda'r elusen wedi dylanwadu'n drwm ar fy ymchwil. Y tri phwynt allweddol o'r profiad hwn oedd:

Yn gyntaf, cefais gipolwg ymarferol a chyflawn ar ei gwaith. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil i archwilio effaith stereoteipio ar sail rhywedd ar gyfranogiad merched mewn chwaraeon a'r bwlch cynrychiolaeth rhwng dynion a merched ym myd chwaraeon ar y cyfryngau. Dysgais hefyd am sut mae'r elusen wedi hyrwyddo a chyflawni newidiadau polisi, meithrin a dylanwadu ar gysylltiadau â rhanddeiliaid a hwyluswyr, a'r rhwystrau y mae arweinwyr benyw yn eu hwynebu.

Yn ail, roedd y menywod y gwnes i gwrdd â nhw i gyd yn gyfeillgar ac yn cefnogi ei gilydd, a rhoddodd hyn ddealltwriaeth newydd i mi o weithle gwahanol iawn. Roedd ymdeimlad o anogaeth a dathlu llwyddiant ymysg y staff ac roedd agwedd gadarnhaol tuag at faterion fel patrymau gweithio hyblyg, rhywbeth nad yw'n cael ei weld yn aml iawn ym myd busnes.

Yn drydydd, ar ddiwedd y lleoliad hwn, roeddwn yn teimlo fy mod i wedi cael rhagor o anogaeth gyda fy PhD ac roeddwn i'n teimlo'n gryfach am y gwaith ymchwil roeddwn i wedi penderfynu ei wneud. Roedd gweld brwdfrydedd y tîm dros gydraddoldeb rhwng y rhyweddau yn ysbrydoliaeth, a rhoddodd hwb pellach i'm hyder ar y pwnc hwn.

Yr Athro Syr Michael Marmot



Y bwlch iechyd - her byd anghyfartal

Roedd Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) yn falch o gynnal darlith Ymddiriedaeth Julian Tudor Hart gan yr Athro Michael Marmot ym Mhrifysgol Caerdydd fis Tachwedd diwethaf. Mae'r Athro Marmot yn arbenigwr blaenllaw ym maes iechyd y cyhoedd, ac mae'r ddarlith hon yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Roedd darlith Ymddiriedolaeth Julian Tudor Hart, a gynhaliwyd mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, yn canolbwyntio ar sut mae angen i ni, wrth ddatblygu strategaethau ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, wynebu'r graddiant cymdeithasol ym maes iechyd ac nid dim ond y gwahaniaeth rhwng y bobl dlotaf a phawb arall.


Dadl yr Athro Syr Michael Marmot oedd bod tystiolaeth glir wrth edrych ar wledydd gwahanol fod polisiau cenedlaethol yn gwneud gwahaniaeth a bod modd gwneud llawer mewn dinasoedd, trefi ac ardaloedd lleol. Ond ni ddylai polisiau ac ymryiadau gael eu cyfyngu i'r system gofal iechyd; dylent fynd i'r afael â'r amodau y mae pobl yn cael eu geni, tyfu, byw, gweithio a heneiddio ynddynt.

Dengys y dystiolaeth fod amgylchiadau economaidd yn bwysig ond nad dyna'r unig beth sy'n gyrru anghydraddoldebau iechyd, a daeth i'r casgliad y bydd yn rhaid cymryd camau ar draws cymdeithas ar sail tystiolaeth gadarn er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch iechyd.

Photo: NHS Confederation [cc-by 2.0]

Sut mae anabledd yn effeithio ar fodlonrwydd bywyd?

Am ragor o wybodaeth, gweler y blog WISERD estynedig:
wiserd.ac.uk/news/how-does-disability-affect-life-satisfaction



Ffynhonnell: Cynhyrchir y ffigur o'r canlyniadau a gyflwynir yn Nhablau A.1-A.8 yr Atodiad yn Jones, M., Mavromaras, K., Sloane, P. a Wei, Z. (2018) "The Dynamic effect of Disability on Work and Subjective Well-being" sydd yn y wasg yn *Oxford Economic Papers*.

Mae'r Athro Melanie Jones (Ysgol Busnes Caerdydd a WISERD), ynghyd â'i chyd-awduron, yr Athro Peter Sloane (Prifysgol Abertawe), a'r Athro Kostas Mavromaras a Dr Zhang Wei (Canolfan Ymchwil Dyfodol Cyflogaeth a Sgiliau, Prifysgol Adelaide), wedi ystyried effaith mynd yn anabl - hynny yw, dyfodiad cyflwr iechyd cyfyngus hirdymor - ar fodlonrwydd â bywyd.

Gan ddefnyddio'r arolwg aelwydydd, incwm a deinameg llafur yn Awstralia (2001-2013), lle mae unigolion yn cael eu holrhain dros amser; mae bodlonrwydd â bywyd yn cael ei gymharu cyn ac ar ôl dod yn anabl. Mae'r canlyniadau yn dangos gostyngiad sydyn mewn llesiant ac mae hyn yn parhau pan fydd anabledd yn hirdymor.

Mae amrywiaeth o ddimensiynau o fodlonrwydd â bywyd yn cael eu

dadansoddi, o fodlonrwydd ag iechyd ac amgylchiadau economaidd, i'r gymuned a'r gymdogaeth. Mae pob un yn cynyddu ar raddfa sy'n dilyn trefn (0-10) ac, yn y ffigur isod, sy'n cyflwyno canlyniadau o 3 blynedd yn flaenorol i 10 mlynedd ar ôl dod yn anabl, yn mesur y newid o'i gymharu â mwy na 3 blynedd yn flaenorol. Nid yw'n syndod bod anabledd yn cael effaith negyddol amlwg ar fodlonrwydd ag iechyd (tua 2.5 pwynt). Fodd bynnag, ceir hefyd effaith negyddol ar gyfleoedd cyflogaeth (hyd at tua 2 bwynt) ac, i raddau llai, sefyllfa ariannol (hyd at tua 1 pwynt). Nid yw'r olaf yn parhau, gan adlewyrchu o bosibl cymorth gan y Llywodraeth (e.e. budd-daliadau lles) neu gymorth gan y teulu (e.e. incwm cymar priod) mewn achos o golli swydd.

Er bod yr effaith yn fwy cymedrol, mae dod yn anabl hefyd yn arwain at ddirywiad mewn bodlonrwydd â'r gymdogaeth, o ran teimlo'n rhan o'r



Melanie Jones
Athro Economeg

Ymunodd Melanie ag Ysgol Busnes Caerdydd yn 2015, ar ôl swyddi ym Mhrifysgol Sheffield a Phrifysgol Abertawe. Mae ei gwaith ymchwil mewn economeg llafur empirig yn cynnwys dadansoddiad meintiol o ddata eilaidd ar raddfa fawr. Mae hi wedi gweithio ar amrywiaeth o faterion polisi perthnasol, ond mae ganddi ddiddordeb penodol yn y rhyngweithio rhwng iechyd a'r farchnad lafur.

wiserd.ac.uk/about-us/people/melanie-jones

gymuned a diogelwch personol (fel arfer rhwng 0.6 a 0.8 pwynt), gan dangos yr amrywiaeth o effeithiau anabledd. Ar y llaw arall, ceir effaith gadarnhaol dros dro ar fodlonrwydd gyda swm yr amser rhydd, sy'n debygol o ddeillio o lefelau cyflogaeth isaf ac, er nad yw'n rhoi unrhyw arwydd o ansawdd.

Mae'r canlyniadau'n awgrymu y bydd y ffocws traddodiadol ar incwm yn tanbrisie'r anfantais a brofir gan bobl anabl ac yn tynnu sylw at yr angen am gymorth polisi ehangach. Mae hyn yn gyson â Chynllun Yswiriant Anabledd Cenedlaethol Awstralia, sy'n targedu cyfranogiad cymdeithasol ac economaidd pobl anabl.

Cyfeiriad llawn: Jones, M Mavromaras, K, Sloane, P. a Wei, Z (2018) "The Dynamic effect of Disability on Work and Subjective Well-being" yn y wasg yn *Oxford Economic Papers*.
<https://academic.oup.com/oep/advance-article/doi/10.1093/oep/gpy006/4991925?guestAccessKey=0d46fa69-34c5-4c2a-95ec-61ed8822faf9>

Heneiddio, cysylltiadau rhwng y cenedlaethau, a rhwystrau cyfranogiad cymdeithasol

Mewn cymdeithas sy'n heneiddio, mae hybu heneiddio'n egniïol ac undod rhwng cenedlaethau wedi bod yn nod polisi allweddol ar lefel genedlaethol yn ogystal â lefel Ewropeaidd. Mae llywodraethau wedi hyrwyddo'r polisiâu hyn mewn ymateb i bryderon dros allgáu cymdeithasol pobl hŷn; mae beirniaid wedi awgrymu nad yw polisiâu o'r fath yn gwneud dim ond lleddfu baich ariannol ac economaidd cymdeithasau sy'n heneiddio a 'manteisio' ar allu pobl hŷn i weithio neu wneud gwaith gwirfoddol.

Mae'r polisiâu hyn, beth bynnag yw'r cymhellad, yn codi cwestiynau ynglŷn â lefel cyfranogiad pobl hŷn yn eu cymunedau a'r buddsoddiad ynddyn nhw; pa mor egniïol maen nhw'n cymryd rhan yn y gymdeithas sifil; a beth yw'r rhwystrau o ran cyfranogiad ac ymgysylltiad dinesig.

Yn y cyd-destun hwn, mae perthnasoedd, cydlyniant ac undod rhwng cenedlaethau gwahanol wedi cael ei nodi fel achos pryder posibl ar draws Ewrop, Unol Daleithiau America, Seland Newydd a'r Deyrnas Unedig. Mae rhywfaint o waith ymchwil yn awgrymu bod cynnydd mewn ymysg y genhedlaeth hŷn o bobl ifanc yn arwain at leihad mewn cysylltiadau rhwng y cenedlaethau a rhyngweithio y tu allan i deulu agos pobl, sydd yn ei dro yn cael effaith negyddol ar lesiant pobl hŷn, eu parodrwydd i gymryd rhan mewn cymdeithas sifil, a lefelau ofn troseddau. Yn ogystal, mae'n cael effaith negyddol ar bobl ifanc gan eu bod yn cael eu stereoteipio fel pobl wrth-gymdeithasol a thrafferthus, ac yn destun ffurfiau mwy llym o reolaeth cymdeithasol.

Mae ofn troseddau a henaint yn aml wedi cael eu cysylltu, a cheir canfyddiad cyffredinol ymhlith llunwyr polisi, y cyhoedd, yn ogystal ag academyddion bod ofn troseddau yn broblem ddifrifol ymysg pobl hŷn ac yn un a allai effeithio ar ganfyddiad pobl o'u cymuned, a'u

rhwystro rhag cymryd rhan weithredol yn y gymdeithas sifil. Yn ein gwaith ymchwil, rydym wedi dechrau mynd drwy arolygon ymchwil presennol ar heneiddio a chysylltiadau rhwng y cenedlaethau ac edrych drwy sbectol 'ofn troseddau' ac agweddau tuag at fygythiad gan bobl ifanc.

Wrth i ni edrych ar y data arolwg sydd ar gael, mae rhai ystadegau blaenllaw eithaf clir a welwyd o'r blaen yn dod i'r amlwg. Po hynaf yr awn ni, y mwyaf anniogel rydym yn teimlo wrth fod allan gyda'r nos, y mwyaf rydym yn poeni ynghylch troseddau gan bobl yn eu 20au, ac rydym yn poeni mwy am effaith bwrghleriaeth. Dylid ystyried y canfyddiadau hyn yn erbyn cefndir o lefelau is o erledigaeth a adroddir wrth i ni heneiddio, a chael eu fframio fel y paradocs oedran-ofn troseddau.

Fodd bynnag, o balu ychydig yn ddyfnach yn y data, mae rhai cydberthnasau mwy cymhleth yn ymddangos. Nid yw pryderon am fod yn ddioddefwr trosedd dreisgar yn gysylltiedig ag oedran; rydym yn ystyried rhai yn eu harddegau yn llai o broblem wrth i ni heneiddio, ac mae'n ymddangos bod ofn troseddau ar draws pob oedran yn ymateb i'r lefelau troseddau gwirioneddol. Mae yna anghysonderau amlwg yn y data a rhai arwyddion o ffactorau a allai effeithio ar y cyfraddau pennawd – bregusrwydd corfforol, cymdeithasgarwch, lle'r ydym yn byw, ac ati. Mae ein gwaith ymchwil

yn ceisio chwilio'n llawer dyfnach i rai o'r canfyddiadau hyn, a thrwy edrych ar ddata arolygon sy'n bodoli'n barod mewn ffyrdd newydd, rydym yn gobeithio dod i wybod mwy am y berthynas gymhleth rhwng heneiddio, ofn troseddau, cysylltiadau rhwng cenedlaethau a llawer mwy.



**Yr Athro
Martina
Feilzer**

Roedd Martina yn astudio'r gyfraith ym Mhrifysgol Tübingen cyn cwblhau MSc mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol ym Mhrifysgol Caeredin ym 1999, a DPhil ar ddylanwad y cyfryngau ar ganfyddiadau'r cyhoedd o droseddau a chyfiawnder troseddol ym Mhrifysgol Rhydychen yn 2008. Mae Martina yn aelod o Ganolfan Cymdeithas Sifil WISERD sy'n cael ei chyllido gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol; mae hi'n gydlynnydd rhwydwaith yng Nghanolfan Troseddau a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru; ac yn gyd-ymgeisydd yn y gyfres o seminarau a gaiff eu cyllido gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol: DATA-PSST! Trafod ac Asesu Trefniadau Tryloywder - Preifatrwydd, Diogelwch, Gwlyddwriaeth, Ymddiriedaeth.

wiserd.ac.uk/about-us/people/martina-feilzer

Archwilio patrymau gofodol rhoddwyr organau sydd newydd gofrestru cyn cyflwyno Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

For the full article visit: www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1353829218300388

Wrth droi at wefan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG i gael gwybodaeth am roi organau, mae rhywun yn debygol o weld ymadroddion fel "Rhowch rodd o fywyd heddiw" a "Gyda'n gilydd gallwn achub rhagor o bobl". Bwriad pennaf defnyddio iaith emosiynol o'r fath yw annog ymwelwyr â'r wefan i ymrwmo i ymuno â chofrestr rhoddwyr organau'r GIG – y mae un rhan o dair o boblogaeth y Deyrnas Unedig wedi cofrestru arni'n barod, sef 24.9 miliwn o bobl. Er gwaethaf niferoedd o'r fath, mae'r galw am organau yn parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad sydd ar gael, ym Mhrydain ac yn fyd-eang, ac o'r herwydd mae mwy na 6,000 o bobl ar restr aros am drawsblaniadau'r y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Yn y Deyrnas Unedig, mae rhywfaint o dystiolaeth y gall amrywiadau gofodol yn y cyfraddau cofrestru fodoli – er enghraifft, ceir cyfraddau is o gofrestriadau yn Lloegr (35% o'r boblogaeth), o gymharu hynny â Chymru (38%), Gogledd Iwerddon (40%) a'r Alban (44%). Er y gallai'r tueddiadau hyn fod yn arwydd o rai ffactorau gofodol sylfaenol, prin yw'r astudiaethau sydd wedi ceisio archwilio cyfraddau cofrestru rhoi organau ar raddfeydd gofodol mwy manwl.


Yn ein gwaith ymchwil mwyaf diweddar rydym yn archwilio patrymau gofodol, a gyrrwyr posibl, cofrestriadau'r gofrestr rhoddwyr organau yng Nghymru rhwng mis Ionawr 2010 a mis Tachwedd 2015. Mae'r gwaith hwn yn ceisio unioni'r bwlch amlwg yn y sail dystiolaeth bresennol ynghylch effeithiau ffactorau daearyddol ar amrywiadau lleol ymuno â'r Gofrestr. Canfuom fod cyfraddau uwch o roddwyr sydd newydd gofrestru mewn ardaloedd a nodweddir gan lefelau uwch o addysg, ond gwelwyd cyfraddau is mewn ardaloedd o amddifadedd uwch ac

ardaloedd sydd â nifer fawr o breswylwyr nad ydyn nhw'n grefyddol. Yn ofodol, golygai hyn fod cyfraddau is o ymuno â'r gofrestr rhoi organau yng nghymunedau cymoedd de Cymru, mewn cyferbyniad â chyfraddau uwch o gwmpas ardaloedd trefol mawr ac ardaloedd yn agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr (Ffigur 1). At hynny, awgrymodd ein canlyniadau mai lefel addysg, fel y cofnodwyd ar lefel ardal, oedd yn cael yr effaith fwyaf ar gyfraddau cofrestru yng Nghymru dros gyfnod yr astudiaeth.

Yn dilyn newid polisi diweddar, a roddwyd ar waith o dan Ddeddf Trawsblaniadau Dynol (Cymru) 2013, mae system optio allan o gydsynio i roi organau yn awr yn bodoli yng Nghymru; gan hynny, ystyrir bod pob oedolyn yn cydsynio i roi organau oni bai ei fod yn cofrestru'n benodol i optio allan. Mae polisi tebyg yn cael ei ystyried yn Lloegr a'r Alban hefyd.

Er nad yw data ar gyfraddau optio allan o roi organau o dan y polisi newydd hwn ar gael eto ar lefel leol, y gobaith yw y bydd y gwaith ymchwil hwn yn gweithredu fel meincnod ar gyfer astudiaethau yn y dyfodol sy'n ceisio cymharu patrymau gofodol mewn cyfraddau optio allan – yn enwedig wrth weld bod 6% o boblogaeth Cymru eisoes wedi eithrio eu hunain o roi organau ers gweithredu'r Ddeddf hon.

Dr Nicholas Page, Dr Mitchel Langford a'r Athro Gary Higgs (WP 3.2)



Ffigur 1. Cyfraddau oed safonedig rhoddwyr organau cofrestredig rhwng 16 a 70 oed rhwng mis Ionawr 2010 a mis Tachwedd 2015

Ffynhonnell: Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG



Dr Nicholas Page

Ymunodd Nick â WISERD fel Uwch Gynorthwydd Ymchwil yn 2016. Ar hyn o bryd mae'n gweithio i WISERD ar becyn gwaith sy'n ceisio defnyddio ffynonellau data eilaidd sy'n bodoli'n barod i ymchwilio i lefelau cyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau lleol yng Nghymru mewn perthynas â newid yn lefelau darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

wiserd.ac.uk/about-us/people/nicholas-page

